



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymraeg

Mwy na geiriau

Adroddiad Blynyddol 2024/25

llyw.cymru



Mwy na geiriau

Adroddiad Blynyddol 2024-25

Mae'r adroddiad yma wedi ei baratoi ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Ymchwil OB3.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Polisi'r Gymraeg

Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Blynyddoedd Cynnar

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

HSS.TimPolisiYGymraeg@llyw.cymru

hss.welshlanguagepolicyteam@gov.wales

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	3
Rhestr o ffigurau	3
Rhestr o dermau	4
1. Cyflwyniad.....	5
2. Strwythur yr adroddiad	7
3. Thema gyffredinol: diwylliant ac arweinyddiaeth	9
3.1. Prosesau rheoli perfformiad.....	9
3.2. Dulliau cyfathrebu	9
3.3. Arwain mewn gwlad ddwyieithog.....	11
4. Thema 1: Polisiâu a chynlluniau ar gyfer y Gymraeg, gan gynnwys data	13
4.1. Datblygu'r dystiolaeth	13
4.2. Offer i gefnogi prif ffrydio ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg ar gyfer grwpiau blaenoriaeth.....	13
4.3. Prif ffrydio ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg i gynlluniau a pholisiâu	14
4.4. Casglu data ar sgiliau Cymraeg y gweithlu ac adrodd arnynt.....	15
4.5. Canllawiau cynllunio'r gweithlu	18
4.6. Y Cynnig Rhagweithiol wedi'i gynnwys yn y Ddyletswydd Ansawdd	19
5. Thema 2: Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol.....	20
5.1. Y gweithlu presennol	20
5.1.1. Cynllunio strategol	20
5.1.2. Diffinio'r gofynion o ran sgiliau Cymraeg	22
5.1.3. Datblygu sgiliau a hyfforddiant.....	23
5.1.4. Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo yn genedlaethol.....	27
5.2. Gweithlu'r dyfodol	27
5.2.1. Data.....	27
5.2.2. Datblygu darpariaeth ddwyieithog	28
5.2.3. Ymgysylltu â gweithlu'r dyfodol.....	29
6. Thema 3: Rhannu arferion gorau a dull galluogi	32
6.1. Rhannu arferion gorau.....	32
6.2. Datblygu cynnwys digidol dwyieithog.....	33

6.3.	Fforymau a grwpiau rhanbarthol.....	35
6.4.	Cyfarfod cenedlaethol o arweinwyr gweithredol a swyddogion y Gymraeg	35
6.5.	Dathlu llwyddiant	36
6.6.	Datblygu asesiadau ac adnoddau diagnostig safonol ar gyfer y Gymraeg	37
6.7.	Y defnydd o Iaith Gwaith.....	38
6.8.	Safoni terminoleg Gymraeg	39
6.9.	Archwilio'r Cynnig Rhagweithiol.....	40
7.	Thema 4: Monitro Mwy na geiriau yn barhaus	42

Rhestr o dablau

Tabl 5.1: Nifer y dysgwyr a gafodd fynediad at ddarpariaeth drwy'r Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn 2024-25.....25

Rhestr o ffigurau

Ffigur 5.1: Canran y staff ym mhob bwrdd iechyd, ymddiriedolaeth a sefydliad iechyd cenedlaethol sydd wedi cwblhau'r cwrs ymwybyddiaeth iaith ar ddiwedd cyfnod adrodd 2024-25 a diwedd cyfnod adrodd 2023-2426

Rhestr o dermau

AaGIC – Gwella Addysg Uwch Cymru

ACE – Archwiliad Gwybyddol Addenbrooke

AGC – Arolygiaeth Gofal Cymru

AGIC – Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

ALTE – Cymdeithas Profwyr Iaith Ewrop

BIA – Bwrdd Iechyd Addysgu

BIP – Bwrdd Iechyd Prifysgol

CEFR – Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer leithoedd

EMIS – Systemau Gwybodaeth Feddygol Egton

ESR – Cofnod Staff Electronig

GCC – Gofal Cymdeithasol Cymru

GIG – Gwasanaeth Iechyd Gwladol

IBS – Syndrom Coluddyn Llidus

ICC – Iechyd Cyhoeddus Cymru

IGDC – Iechyd a Gofal Digidol Cymru

KAS – Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

NDR – Adnodd Data Cenedlaethol

PCGC – Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

WAST – Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

WCCIS – System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru

WNCR – Cofnod Gofal Nyrsio Cymru

1. Cyflwyniad

Lansiwyd cynllun Mwy na geiriau 2022-27 gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd ym mis Awst 2022. Roedd yn amlinellu cynllun pum mlynedd uchelgeisiol, a ddatblygwyd gan grŵp o arbenigwyr yn seiliedig ar werthusiad annibynnol o gynllun pum mlynedd cyntaf Mwy na geiriau.

Mae'r cynllun yn cynnwys sawl cam gweithredu o dan bum thema:

- diwylliant ac arweinyddiaeth
- polisïau a chynlluniau ar gyfer y Gymraeg
- cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu
- rhannu arferion gorau
- monitro cynnydd.

Wrth wraidd y cynllun Mwy na geiriau mae cydnabyddiaeth y dylai derbyn gwasanaethau yn y Gymraeg, yn enwedig pan fydd pobl fwyaf agored i niwed, fod yn rhan annatod o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae safonau proffesiynol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn pwysleisio bod cyfathrebu effeithiol yn ofyniad allweddol ac yn hanfodol i gynnal urddas a pharch a darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Felly, dylai mabwysiadu a chyflawni Mwy na geiriau helpu i wella ansawdd gofal i unigolion sy'n byw mewn gwlad ddwyieithog, yn unol â Cymru Iachach – cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, a Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Yn ogystal â Mwy na geiriau, mae cyrff cyhoeddus yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol hefyd yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, sef safonau statudol sy'n pennu dyletswyddau clir i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Caiff y safonau hyn eu rheoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg, y mae ei fframwaith yn cynnwys monitro, gorfodi, a rhaglen hyrwyddo cydymffurfiaeth a gynlluniwyd i gefnogi sefydliadau i gyflawni eu rhwymedigaethau. Mae'r dull deuol hwn - cynllunio strategol a rheoleiddio statudol - yn helpu i sicrhau bod yr hawl i dderbyn gwasanaethau yn y Gymraeg wedi'i hymwreiddio mewn polisi ac ymarfer.

Amlinellodd dau adroddiad blynyddol cyntaf Mwy na geiriau y cynnydd a wnaed o ran gwella gwasanaethau Cymraeg ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Roedd rhai o'r cyflawniadau allweddol a adroddwyd yn cynnwys cryfhau prosesau casglu data i ddeall sgiliau Cymraeg yn well ar draws y gweithlu, nodi bylchau yn sgiliau Cymraeg y gweithlu a defnydd helaeth o adnoddau iaith Gwaith. Cyfeiriodd y ddau adroddiad blynyddol cyntaf hefyd at ddatblygiad cyrsiau fel y 'Cwrs Croeso', datblygu a lansio'r Hwb Iaith a sefydlu Bwrdd Cynghori Mwy na geiriau. Cyhoeddwyd [datganiad ysgrifenedig](#) ym mis Awst 2023 gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, yn cadarnhau'r cadeirydd a benodwyd ynghyd ag aelodau'r bwrdd.

Mae'r trydydd adroddiad blynyddol hwn yn ceisio adeiladu ar y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer 2024-25, gan ganolbwyntio'n benodol ar themâu craidd Mwy na geiriau, y camau gweithredu a gymerwyd hyd yma, effeithiau allweddol, unrhyw fylchau yn y dystiolaeth, a meysydd lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd (a chynnydd cyflymach). Mae'r dystiolaeth a gasglwyd hefyd yn rhoi cipolwg ar sut y mae gweithredu Mwy na geiriau yn cyd-fynd â Safonau statudol y Gymraeg, gan atgyfnerthu pwysigrwydd dull cefnogol wedi'i reoleiddio o ddarparu gwasanaethau dwyieithog.

2. Strwythur yr adroddiad

Yr adroddiad hwn yw trydydd adroddiad blynyddol cynllun Mwy na geiriau 2022-27 – cynllun iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd yr [adroddiad blynyddol cyntaf](#) yn cwmpasu blwyddyn gyntaf gweithredu Mwy na geiriau (Awst 2022 – Awst 2023) a'r ail adroddiad blynyddol yn cwmpasu'r cyfnod gweithredu o fis Medi 2023 i fis Mawrth 2024.

Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- mae Pennod 3 yn amlinellu'r cyflawniadau yn erbyn y thema gyffredinol, sef diwylliant ac arweinyddiaeth
- ym Mhennod 4, ystyrir y cyflawniadau a'r heriau'n ymwneud â Thema 1, polisïau a chynlluniau ar gyfer y Gymraeg gan gynnwys data
- ym Mhennod 5 trafodir y cynnydd a'r heriau yn erbyn Thema 2, sef cefnogi a datblygu sgiliau Gymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol
- mae Pennod 6 yn amlinellu'r cyflawniadau a'r heriau'n ymwneud â gwireddu Thema 3, rhannu arferion gorau a dull galluogol
- ym Mhennod 7, ystyrir Thema 4, sef monitro Mwy na geiriau yn barhaus.

Mae astudiaethau achos o arferion da hefyd wedi'u cynnwys yn ôl yr angen ym Mhenodau 3 i 6.

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar:

- adolygiad o adroddiadau a baratowyd gan sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Adolygwyd cyfanswm o 35 o adroddiadau, a baratowyd gan:
 - Lywodraeth Cymru
 - 7 bwrdd iechyd (Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Betsi Cadwaladr; BIP Aneurin Bevan; Bwrdd Iechyd Addysgu (BIA) Powys; BIP Caerdydd a'r Fro; BIP Bae Abertawe; BIP Hywel Dda; a BIP Cwm Taf Morgannwg)
 - 15 awdurdod lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Caerdydd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Dinbych, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a Chyngor Bro Morgannwg)
 - 6 sefydliad iechyd cenedlaethol (Iechyd a Gofal Digidol Cymru [IGDC], Addysg a Gwella Iechyd Cymru [AaGIC], Iechyd Cyhoeddus Cymru [ICC], Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (PCGC), Ymddiriedolaeth GIG

Prifysgol Gwasanaethau Ambiwylans Cymru [WAST] ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre)

- 6 sefydliad arall (Gofal Cymdeithasol Cymru [GCC], y Coleg Cymraeg Cenedlaethol [y Coleg]), y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Gyrfa Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Mae'n bwysig nodi, yn ogystal â threfniadau adrodd Llywodraeth Cymru o dan y cynllun Mwy na geiriau, ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol a sefydliadau iechyd adrodd yn flynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar eu cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Mae'r sefydliadau hyn yn destun rhaglen o waith monitro, gan gynnwys hunanadrodd ar gydymffurfiaeth. Mae'r Comisiynydd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n rhoi trosolwg o gydymffurfiaeth a chynnydd ar draws sectorau. Cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf, [Grymuso'r Gymraeg drwy lywodraethiant cadarn](#), a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025.

3. Thema gyffredinol: diwylliant ac arweinyddiaeth

Mae arweinyddiaeth yn sbardun allweddol ar gyfer gweithredu Mwy na geiriau yn llwyddiannus. Nod y thema gyffredinol hon yw ymwreiddio diwylliant o berthyn mewn perthynas â'r Gymraeg yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol a dangos arweinyddiaeth ar bob lefel ar gyfer defnyddio'r Gymraeg i ddarparu gwasanaethau o safon ac i sicrhau canlyniadau gwell i unigolion.

3.1. Prosesau rheoli perfformiad

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cafodd Mwy na geiriau a'r Cynnig Rhagweithiol eu hymwreiddio ym mhrosesau rheoli perfformiad byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, ac awdurdodau lleol.

Mae gan holl Gadeiryddion Byrddau'r GIG a Chyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol amcanion perfformiad personol yn ymwneud â chefnogi gweithrediad Mwy na geiriau a'r Cynnig Rhagweithiol. Mae adroddiadau blynyddol gan Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys ffocws ar wasanaethau Cymraeg. Roedd cydnabyddiaeth y gellid cryfhau'r adroddiadau yn y blynyddoedd i ddod drwy ddarparu rhagor o fanylion ynghylch y Gymraeg a sut mae gwasanaethau'n cyflawni blaenoriaethau allweddol.

Rhoddodd ambell awdurdod lleol (Cyngor Caerdydd, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf) ac IGDC fanylion pellach ynghylch sut yr oedd y Cynnig Rhagweithiol wedi cael ei ymwreiddio yn eu prosesau rheoli perfformiad. Roedd hyn yn cynnwys ymwreiddio'r Cynnig o fewn prosesau gwerthuso, sefydlu ac asesu gofal, yn ogystal ag o fewn strategaethau, cynlluniau ac adroddiadau perthnasol.

3.2. Dulliau cyfathrebu

Llywodraeth Cymru, AaGIC a GCC sydd â'r prif gyfrifoldeb am sicrhau bod staff iechyd a gofal cymdeithasol, dros amser, yn meithrin gwerthfawrogiad o'r gwahaniaeth cadarnhaol y gall dysgu a defnyddio'r Gymraeg ei wneud. Mae'r cyfrifoldeb hwn wedi'i ategu gan y gofyniad statudol, sy'n cael ei reoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg, i sefydliadau ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i'w staff.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu tair ffilm i hyrwyddo'r [Cwrs Croeso](#) a ddatblygwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gan gynnwys negeseuon o gefnogaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Prif Weithredwr y GIG; a Phrif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu contractwr allanol i ddatblygu animeiddiad newydd a chwe ffilm ategol i hyrwyddo amcanion Mwy na geiriau, a fydd ar gael i staff rheng flaen.

Mae AaGIC wedi cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith 'Agor y Drws'. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys sesiwn undydd wedi'i theilwra i arweinwyr a rheolwyr y GIG. Ei nod yw cynyddu eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg, o'u cyfrifoldeb i ddatblygu gwasanaethau Cymraeg ac o ddarpariaeth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r hyfforddiant wedi cael ei gynniig ar draws rhwydweithiau'r GIG mewn cydweithrediad â Phrifysgol Aberystwyth. Dilynodd dros 250 yr hyfforddiant, gan gynnwys staff IGDC, ICC a AaGIC yn ogystal â thros 50 o nyrsys o Brifysgol Aberystwyth.

Datblygodd GCC gwrs ymwybyddiaeth iaith hefyd ar gyfer gweithwyr a myfyrwyr yn y sector gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae'r cwrs yn cynnwys gwybodaeth am y Gymraeg a dwyieithrwydd, yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddweud, a'r hyn y mae'n rhaid i sefydliadau ei wneud a pham. Mae'r cwrs hefyd yn edrych ar ymarferoldeb gweithio'n ddwyieithog a beth mae hyn yn ei olygu i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Mae'n adlewyrchu pwysigrwydd y Gymraeg fel 'edefyn aur' yng ngwaith ehangach GCC. Mae adnoddau ehangach yn y Gymraeg hefyd ar gael ac wedi'u cyhoeddi [ar-lein](#).

Darparodd rhai byrddau iechyd, sefydliadau iechyd cenedlaethol ac awdurdodau lleol fanylion am eu dulliau eu hunain o ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a chyfleu gwerth y Gymraeg. Er enghraifft, parhaodd BIP Cwm Taf Morgannwg â'i ddull cyfathrebu mewnol strategol yn seiliedig ar fodel newid ymddygiad COM-B ac mae wedi ymgorffori "cyfraniad at Mwy na geiriau" ym mhob categori yn y gwobrau Seren blynyddol. Dathlodd IGDC ddigwyddiadau diwylliannol Cymraeg, cyflwynodd wobwr dysgwr y flwyddyn yn ei gynhadledd staff, a sicrhodd fod pob cyflwyniad a wnaed gan y sefydliad yn ddwyieithog. Penododd Cyngor Caerdydd Hyrwyddwr y Gymraeg a Chydlynnydd ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Phlant, sy'n gyfrifol am gyflwyno diweddariadau a mentrau'n ymwneud â'r Gymraeg. Parhaodd Cyngor Gwynedd i rannu straeon cadarnhaol am y Gymraeg, ac fe wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful dreialu a monitro ei #SiarterShwmaeronment ar draws tair cyfarwyddiaeth. ^[troednodyn 1] Esboniodd BIP Cwm Taf Morgannwg, ICC a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful hefyd sut y mae gwerth y Gymraeg wedi cael ei ymwreiddio mewn dogfennau strategol pwysig.

Astudiaeth achos: Dull Cyngor Sir Ceredigion o hyrwyddo'r iaith

Cynhyrchodd Cyngor Sir Ceredigion e-gylchlythyr misol, #Gwena', ar gyfer y gweithlu. Prif nod y cylchlythyr yw hyrwyddo'r Gymraeg mewn amryw o ffyrdd gan gynnwys hysbysebu amrywiol ddigwyddiadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngheredigion a rhannu podlediadau, newyddion, cerddoriaeth a chwisiau i ddysgwyr. Hefyd lansiodd Tîm Cefnogi'r Gymraeg Ceredigion gyfres newydd o bodlediadau, o'r enw Cymraeg Bob Dydd / Welsh Everyday. Crëwyd y gyfres hon o bodlediadau i gychwyn unigolion ar y daith o ddysgu'r iaith a'u cefnogi ac mae wedi cael ei rhannu â staff mewn cartrefi preswyl. Ar hyn o bryd mae Cymraeg Bob Dydd yn cynnwys wyth pennod ddifyr, pob un yn canolbwyntio ar batrwm ieithyddol penodol.

¹ Rhaglen fewnol yw'r Siarter sy'n darparu fframwaith i'r cyngor hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy gyfres o dargedau mewn dull graddol, sef efydd, arian ac aur.

Darparodd rhai byrddau iechyd ac awdurdodau lleol fanylion hefyd am eu dull o ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith. Roeddent yn aml yn egluro bod hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, gan gynnwys gwerth y Gymraeg, wedi'i ymwreiddio mewn prosesau sefydlu (er enghraifft yn achos BIP Aneurin Bevan, BIP Bae Abertawe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chyngor Dinas Casnewydd). Rhoddodd ambell un fanylion mwy penodol yn ymwneud â'r math o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a ddarparwyd. Er enghraifft, nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'r prif ddeilliannau dysgu o'i gyrsiau hyfforddiant ymwybyddiaeth Mwy na geiriau a'r Cynnig Rhagweithiol, tra bod eraill (megis Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Bro Morgannwg ac ICC) wedi egluro'r ystod o hyfforddiant sydd ar gael gan gynnwys cyrsiau blasu, cyrsiau ymwybyddiaeth a darpariaeth brif ffrwd. Cadarnhaodd eraill (fel Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf) eu bod yn parhau i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith cyson a hyrwyddo gwerth yr iaith.

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd wedi sicrhau bod ei chynlluniau ar gyfer y sector yn ystyried ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o'r iaith, perthnasodd unigolion â'r iaith, diwylliant Cymru ac effaith dewis iaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau.

3.3. Arwain mewn gwlad ddwyieithog

Rhaglen datblygu sefydliadol sy'n anelu at rymuso uwch arweinwyr i feithrin diwylliant lle y gall dwyieithrwydd ffynnu o fewn eu sefydliadau yw Arwain mewn Gwlad Ddwieithog.^[troednodyn 2] Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cyfnod peilot Arwain mewn Gwlad Ddwieithog eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfranogwyr, yn enwedig o ran cynyddu eu hyder wrth arwain mewn amgylchedd dwyieithog a chryfhau sgiliau arweinyddiaeth a chyfathrebu cysylltiedig. Fel rhan o'i hymrwymiad i ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o'r rhaglen hon yn effeithiol, mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau gwaith ar gynhyrchu astudiaethau achos a phortreadau byrion sy'n arddangos effaith y rhaglen o fewn sefydliadau. Bu ffocws penodol hefyd ar gyflwyno gweithdai Arwain mewn Gwlad Ddwieithog i staff Llywodraeth Cymru, mewn cynadleddau ac i uwch dimau arwain ar draws cynghorau sir.

Darparwyd rhai enghreifftiau o sut yr oedd byrddau iechyd ac awdurdodau lleol wedi cymryd rhan yn y rhaglen neu wedi elwa ohoni. Yng Nghyngor Sir Caerfyrddin, cymerodd y Cyfarwyddwr Cymunedau ran ochr yn ochr â'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaethau. Mae pob Aelod o'r Cabinet, gan gynnwys yr Aelod sy'n gyfrifol am Iechyd a Gofal Cymdeithasol, wedi bod yn rhan o sesiynau un i un. Cwblhaodd Pennaeth Ansawdd a Diogelwch BIP Bae Abertawe y rhaglen yn 2024 ac mae ailstrwythuro mewnol dilynol wedi arwain at symud portffolio strategol y Gymraeg i'r portffolio Ansawdd Diogelwch a Gwelliant. Mae hyn yn adlewyrchu'r cyfeiriad a osodwyd o fewn y Ddyletswydd

² Ymdrech ar y cyd rhwng Academi Cymru, Cymraeg 2050; y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Blynnyddoedd Cynnar yn Llywodraeth Cymru; a hwyluswyr allanol yw Arwain mewn Gwlad Ddwieithog. Prif nod y rhaglen yw helpu arweinwyr i weithredu'r strategaeth Cymraeg 2050 yn effeithiol mewn modd sy'n addas i'w sefydliadau a'u hanghenion penodol, gan greu amgylchedd cefnogol i'r holl staff, waeth beth fo'u galluoedd ieithyddol. Mae'n cyfateb yn strategol â'r strategaeth Cymraeg 2050 a Mwy na geiriau.

Ansawdd ac yn darparu llinellau arweinyddiaeth ac atebolrwydd clir ar gyfer Mwy na geiriau o fewn y sefydliad.

Mae galw mawr am y rhaglen Arwain mewn Gwlad Ddwyeithog. Er mwyn bodloni'r galw cynyddol hwn ac ehangu ei gyrhaeddiad ymhellach, bydd camau yn y dyfodol yn ymgorffori elfen 'hyfforddi'r hyfforddwr'. Bydd hyn yn sicrhau cynaliadwyedd a gallu'r rhaglen i ehangu drwy feithrin capasiti mewnol o fewn sefydliadau, a thrwy hynny ymestyn cyrhaeddiad ac effaith y rhaglen ar draws ystod ehangach o sectorau a sefydliadau ledled Cymru. Mae rhai sefydliadau sydd heb lwyddo i gael lle ar y rhaglen eto yn parhau i fod â diddordeb ynddi, gan gynnwys BIP Caerdydd a'r Fro, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Fynwy ac ICC.

Mae ambell fwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd wedi hwyluso eu hyfforddiant neu raglen arweinyddiaeth fewnol eu hunain. Er enghraifft, fel rhan o raglen datblygu Bwrdd WAST, hwylusodd Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg sesiwn ar bwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal iechyd. Parhaodd BIP Cwm Taf Morgannwg i ddefnyddio ei Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Arweinyddiaeth sy'n cynnwys dwyieithrwydd fel thema graidd. Nod y fframwaith yw datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r Gymraeg a'i diwylliant drwy archwilio ei hanes cymdeithasol a sut y mae wedi dylanwadu ar hunaniaeth ddwyieithog a defnydd o'r iaith.

4. Thema 1: Polisiâu a chynlluniau ar gyfer y Gymraeg, gan gynnwys data

Mae Mwy na geiriau yn cydnabod bod prosesau casglu data cryf a sylfaen dystiolaeth gref yn hanfodol i lywio ac ysgogi penderfyniadau'n ymwneud â pholisi a chynllunio'r gweithlu. Bydd sicrhau gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gynllunio gwasanaethau'n effeithiol yn galluogi sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu'r Cynnig Rhagweithiol yn llwyddiannus drwy eu gweithlu.

4.1. Datblygu'r dystiolaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod darlun cliriach o ba ddata sy'n bodoli ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan nodi ble mae bylchau'n parhau a pha ddangosyddion cryno y gellid eu defnyddio i fonitro cynnydd o ran y Cynnig Rhagweithiol.

Yn ystod 2024-25 cwblhaodd Llywodraeth Cymru waith paratoi allweddol i gyflawni'r flaenoriaeth hon. Gweithiodd y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) gyda Thîm Polisi'r Gymraeg yn y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynnyddoedd Cynnar i ddrafftio manyleb ar gyfer ymarfer mapio data llawn a rhoddwyd contract ar waith i fwrw ymlaen â'r adolygiad hwnnw. Bydd yr ymarfer mapio yn cwmpasu ffynonellau data presennol, yn nodi set fach o ddangosyddion ymarferol, sy'n briodol i'r sector ac yn gwneud argymhellion ynghylch sut y gellid cyflwyno dangosfwrdd perfformiad cenedlaethol.

Cwblhawyd cam cyntaf arolwg y darparwyr gofal sylfaenol ym mis Rhagfyr 2024, gan ddarparu data meintiol ar weithredu dyletswyddau'n ymwneud â'r Gymraeg, hyfforddiant staff, gweithgaredd hyrwyddo ac ymgysylltiad cleifion. Roedd yr ymarfer hwn yn cynnwys ailadrodd arolwg 2019 ar ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg mewn gofal sylfaenol, ond ehangwyd yr arolwg i gynnwys pedwar maes allweddol arall o ofal sylfaenol y GIG: Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, Gwasanaethau Optometreg Cyffredinol, a Fferylliaeth Gymunedol Cymru. Bydd gwaith ymchwil ansoddol pellach, a gynhelir yn ystod 2025-26, yn darparu gwell dealltwriaeth o ddarpariaeth ar draws gofal sylfaenol.

4.2. Offer i gefnogi prif ffrydio ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg ar gyfer grwpiau blaenoriaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran datblygu offer i gefnogi prif ffrydio ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg mewn cynlluniau a pholisiâu, yn enwedig mewn meysydd ar gyfer grwpiau blaenoriaeth â lefelau uchel o ryngweithio â gwasanaethau cyhoeddus yn ystod cyfnod adrodd 2024-25.

Mae hyn yn amlwg yn y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant a'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed, sydd ill dwy yn ymrwymo'n benodol i'r Cynnig Rhagweithiol mewn perthynas â gwasanaethau Gymraeg.

Yn y maes gofal dementia, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil i ddilysu offer asesu sgiliau gwybyddol yn y Gymraeg ac mae'n gweithio gydag Is-grŵp y Gymraeg a Dementia i wella llwybrau diagnosis ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Bydd olynydd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia yn parhau i flaenoriaethu darpariaeth Gymraeg, gyda chefnogaeth mentrau fel y Cynllun Darllen yn Well ar gyfer Dementia a rhaglen Dysgu Cymraeg bwrpasol ar gyfer gweithwyr gofal dementia proffesiynol. Mae'r ymdrechion hyn yn cael eu llywio gan werthusiadau a briffiau polisi sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn newis iaith cleifion a gofalwyr.

Cafwyd buddsoddiad wedi'i dargedu mewn gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith hefyd, yn sgil sefydlu rhaglen gradd ddwyieithog ym Mhrifysgol Wrecsam a bwrsariaethau i fyfyrwyr sy'n ymrwymo i weithio yng Nghymru. Mae gwasanaethau adsefydlu strôc yn cael eu gwella gyda chyllid ar gyfer timau amlbroffesiwn, gan sicrhau y gall siaradwyr Cymraeg gael mynediad at gymorth ar gyfer adferiad yn eu dewis iaith. Yn yr un modd, mae pobl hŷn yn elwa o gael gwybodaeth, cyngor a chymorth dwyieithog drwy fentrau fel y Datganiad Ansawdd Integredig ac ymgyrchoedd Age Cymru, sy'n cyd-fynd â pholisi a deddfwriaeth yn ymwneud â'r Gymraeg.

I blant ac unigolion nirowahanol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymwreiddio cefnogaeth o ran y Gymraeg ar draws y blynyddoedd cynnar, addysg, a gwasanaethau iechyd. Mae rhaglenni fel Siarad gyda Fi a Cymraeg i Blant yn hyrwyddo dwyieithrwydd o fabandod, tra bod cyllid wedi'i dargedu yn cefnogi ehangu gofal plant cyfrwng Cymraeg. Mewn gwasanaethau niwroamrywiaeth, mae ymdrechion cydweithredol ar y gweill i ddatblygu rhaglenni dysgu Cymraeg wedi'u teilwra ar gyfer gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys cyfieithu offer diagnostig fel y Cyfweliad Clinigol Awtistiaeth i Oedolion.

4.3. Prif ffrydio ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg i gynlluniau a pholisïau

Mae awdurdodau lleol a sefydliadau iechyd yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, sy'n gosod dyletswydd statudol arnynt i roi ystyriaeth gydwbybodol i effeithiau posibl penderfyniadau polisi ar y Gymraeg. Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol nid yn unig asesu effeithiau negyddol posibl, ond hefyd fynd at i chwilio am gyfleoedd i wella canlyniadau cadarnhaol i'r iaith drwy eu prosesau llunio polisïau.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliodd Comisiynydd y Gymraeg ymchwiliad allweddol i gydymffurfiaeth â'r safonau hyn, gan ganolbwyntio ar sut y mae cyrff cyhoeddus yn ymgorffori ystyriaethau ieithyddol mewn gwaith cynllunio prif ffrwd. Cyhoeddodd y Comisiynydd y ddogfen [Penderfyniadau Polisi a'r Gymraeg: Ymdrech gydwbybodol?](#) sy'n amlinellu ei phrif ganfyddiadau, ac yn cynnig cyfres o argymhellion yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi arfer da, yn ogystal â rhai meysydd y mae angen eu gwella.

Mae tystiolaeth o adroddiadau blynyddol 2024-25 a baratowyd gan sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn dangos bod gwiriadau iaith yn cael eu hymgorffori fwyfwy mewn prosesau cynllunio prif ffrwd a fydd yn helpu arweinwyr polisi a rheolwyr i ystyried anghenion ieithyddol yn y camau dylunio cynharaf.

Er enghraifft, mae mwy o ddefnydd o brosesau asesu effaith wedi helpu i nodi goblygiadau ieithyddol yn gynharach mewn cylchoedd cynllunio ac, mewn rhai achosion, wedi arwain at welliannau pendant i gynlluniau recriwtio, hyfforddi neu gyfathrebu cyn i newidiadau i wasanaethau gael eu cwblhau. Mae sawl bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd, gan gynnwys BIP Aneurin Bevan, BIP Caerdydd a'r Fro, BIP Betsi Cadwaladr, BIP Bae Abertawe, Iechyd Cyhoeddus Cymru a WAST yn disgrifio sut y mae'n ofyniad ganddynt i gynnal Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb sy'n cynnwys adran bwrpasol ar y Gymraeg neu sut y maent yn defnyddio Asesiad pwrpasol o'r Effaith ar y Gymraeg. Darparodd BIP Cwm Taf Morgannwg enghraifft nodedig o arfer ffurfiol, gan gyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg ochr yn ochr â phrosiectau mawr fel bod goblygiadau ieithyddol yn cael eu hystyried ochr yn ochr â risgiau clinigol ac ariannol.

Yn yr un modd, adroddodd awdurdodau lleol fod gwiriadau o ran y Gymraeg yn cael eu hychwanegu at ddeddfiadau asesuadau effaith integredig. Er enghraifft: disgrifiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Bwrdeistref Sirol Penfro a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sut y mae fframwaith yr Asesiad Effaith Integredig wedi cael ei adolygu gyda'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn rhan o'r safonau llunio polisïau. Mae'r defnydd o'r Gymraeg hefyd yn cael ei fesur fel rhan o'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd ar draws holl weithgaredd gofal cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion.

4.4. Casglu data ar sgiliau Cymraeg y gweithlu ac adrodd arnynt

Bellach, mae gan y rhan fwyaf o fyrddau iechyd, ymddiriedolaethau a sefydliadau gofal cymdeithasol ddulliau sefydledig ar gyfer casglu data ar sgiliau Cymraeg gan eu gweithlu. Yn y GIG, y system ESR yw'r prif blatfform o hyd ar gyfer cofnodi sgiliau iaith. Yn y sector gofal cymdeithasol, mae GCC wedi addasu ei brosesau cofrestru a'i offer arolwg o'r gweithlu i gasglu data cymharol ar gyfer y gweithlu cofrestredig, tra bod awdurdodau lleol wedi datblygu ystod o systemau adnoddau dynol a digidol i gasglu a rheoli gwybodaeth am iaith.

Adroddodd sefydliadau ar draws y system iechyd a gofal welliannau yng nghywirdeb a chwmpas eu data sgiliau yn ystod 2024-25. Er bod rhai wedi cyflawni cydymffurfiaeth lawn o ran y gofynion i gofnodi sgiliau iaith y gweithlu, neu'n agos at wneud hynny, mae sefydliadau eraill lle roedd y lefelau cofnodi dim ond fymryn dros 50% (gweler adran 5.1.1). Mae'n bwysig cydnabod y bydd data ar sgiliau staff yn hanfodol er mwyn cyflawni Safon y Gymraeg 110, lle ceir gofyniad i sefydliadau iechyd gyhoeddi cynllun pum mlynedd i gynyddu'r capasiti i gynnig ymgynghoriadau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Adroddodd IGDC fod 99% o'i weithlu wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar ESR. Mae IGDC yn defnyddio dangosfyrddau Power BI sy'n casglu gwybodaeth am sgiliau Cymraeg staff yn ôl lleoliad a chyfarwyddiaeth ar draws yr holl swyddfeydd. Ar y cyd â strategaeth sgiliau dwyieithog, fe wnaeth hyn alluogi rheolwyr recriwtio i nodi bylchau yn sgiliau Cymraeg y gweithlu
- Cyflawnodd ICC gyfradd gwblhau o 97%. Mae ICC wedi integreiddio cofnodi sgiliau iaith i brosesau sefydlu ac arfarnu ac mae'n darparu canllawiau cam wrth gam drwy ei Hwb Cymraeg i gynorthwyo staff i ddiweddarau eu cofnodion
- Adroddodd WAST fod 96% wedi cofnodi eu sgiliau iaith ar ESR
- Darparodd BIP Betsi Cadwaladr ddarlun manwl, gan gynnwys cynnydd dros y tair blynedd diwethaf. Erbyn cyfnod adrodd 2024-25 maent yn gallu adrodd ar 96% o'r gweithlu, sy'n cyfateb i 20,200 o bobl. O blith y rhain, mae gan un o bob pump lefel uchel o hyfedredd yn y Gymraeg, ac mae gan fwy na hanner y staff sgiliau lefel mynediad o leiaf
- Mae BIP Cwm Taf Morgannwg yn cadw data ar sgiliau iaith ar gyfer 92% o'i weithlu Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn sicrhau bod unrhyw gynnydd o ran dysgu a gyflawnir drwy ei raglenni sy'n cael eu harwain gan diwtoriaid yn cael ei adlewyrchu'n brydlon yng nghofnodion ESR, gan ddarparu darlun deinamig a chywir o gapasiti dwyieithog y gweithlu
- Yn BIA Powys, mae sgiliau iaith 90% o'r staff bellach yn hysbys ac wedi'u cofnodi ar gofnodion ESR
- Cyflawnodd AaGIC gyfradd gydymffurfio o 89% ar gyfer sgiliau iaith
- Adroddodd BIP Aneurin Bevan gyfradd gydymffurfio o 86% yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r Bwrdd wedi datblygu offer digidol i gynorthwyo staff i gofnodi eu sgiliau ac yn ymgymryd â gwaith ymgysylltu wedi'i dargedu mewn adrannau â lefelau is o gydymffurfiaeth i gasglu data coll
- Mae BIP Bae Abertawe wedi gwneud cynnydd cryf yn y maes hwn, gan gynyddu faint o ddata a gedwir dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae sgiliau 58% o'i weithlu bellach wedi'u cofnodi. Mae'r bwrdd iechyd wedi rhoi cynllun gweithredu mewnol ar waith i gynyddu'r ffigur hwn i 85% erbyn diwedd y cyfnod adrodd nesaf, sef 2025-26
- Parhaodd BIP Caerdydd a'r Fro i hyrwyddo cofrestru sgiliau iaith Gymraeg ar y Cofnod Staff Electronig, fodd bynnag, dim ond cyfradd gofrestru o 53% y mae wedi'i chyflawni hyd yn hyn.

Parhaodd GCC i arwain cynnydd ar gasglu data ar iaith ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol cofrestredig. Gan gynnwys cartrefi gofal i oedolion, mae cofrestr GCC bellach yn cwmpasu dros 62,000 o gofrestreion. Yn ystod 2024-25, addasodd GCC ei gategorïau cofrestru i gyd-fynd â lefelau iaith y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, gan sicrhau mwy o gysondeb a mwy o allu i gymharu'r data.

Astudiaeth achos: casglu data ar sgiliau iaith y gweithlu

Gan weithio'n agos â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, datblygodd GCC [offeryn asesu lefelau iaith](#) wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol, sydd hefyd wedi'i fabwysiadu gan AaGIC. Mae GCC wedi creu cyfres o offer dangosfwrdd sy'n

gysylltiedig â data cofrestru, gan roi mynediad mewn amser real i staff a rheolwyr at ddata iaith drwy fewnrwyd y sefydliad.

Dangosodd canfyddiadau arolwg o'r gweithlu 2024, sef Dweud Eich Dweud a gynhaliwyd gan GCC, fod tua 10% o weithwyr wedi nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, a bod 29% yn gallu siarad Cymraeg ar lefel sylfaenol neu lefel sylfaen. Dywedodd chwarter (25%) y gweithlu ei fod yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith y rhan fwyaf o'r amser neu bob amser. Bydd arolwg dilynol a lansiwyd ym mis Mawrth 2025 yn adeiladu ar y canfyddiadau hyn, a disgwylir y canlyniadau yn 2025-26.

Mae newidiadau i drefniadau adrodd cronfa ddata Carreg GCC yn golygu bod cwestiynau cofrestru newydd bellach yn cofnodi sgiliau ar raddfa o 1–5 sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer leithoedd (CEFR). Er y bydd yn cymryd cylch cofrestru llawn i gwblhau'r newid, mae data cynnar eisoes yn darparu tueddiadau dangosol cryf. Bydd integreiddio'r setiau data hyn i'r Porth Data Gofal Cymdeithasol yn disodli'r trefniadau adrodd â llaw ac yn darparu diweddariadau misol, sy'n newid sylweddol o ran y ffordd y caiff data iaith eu trin o fewn y sector gofal cymdeithasol.

Mewn cydweithrediad â Chomisiynydd y Gymraeg, cynhaliodd GCC gynllun peilot i gyflogwyr yn ystod y cyfnod hwn hefyd, gan ddarparu cymorth pwrpasol i adnabod sgiliau iaith i 18 o gyflogwyr. Cefnogodd GCC y cyflogwyr hyn i adnabod sgiliau a bylchau presennol, nodi llwybrau dysgu a darparu offer asesu ac adnoddau i gefnogi dysgu.

Ar draws awdurdodau lleol, mae ymdrechion i wella ansawdd a chwmpas data sgiliau iaith y gweithlu wedi parhau. Mae llawer o gynghorau wedi cyflwyno offer digidol newydd, wedi integreiddio meysydd Cymraeg mewn systemau AD, neu wedi lansio asesiadau mewnol wedi'u targedu:

- cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili arolwg o sgiliau ieithyddol yr holl staff gan ymgorffori casglu data am y Gymraeg yn ei fodiwl sefydlu newydd, gan sicrhau bod data'n cael eu cofnodi yn ystod y cam recriwtio
- diweddarodd Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Ddinbych eu cofrestr gan gategoreiddio staff fel siaradwyr rhugl, siaradwyr cymedrol, neu ddysgwyr, sy'n cefnogi cydweithwyr i adnabod staff addas sy'n gallu siarad Cymraeg ar gyfer atgyfeiriadau a chyfathrebu â phlant, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol
- adroddodd Cyngor Gwynedd ei fod yn parhau i ddarparu adroddiadau blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar sgiliau iaith ei staff, gan ddefnyddio'r data i lywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau
- mae Cyngor Sir Fynwy yn ymchwilio i ymgorffori adrodd ar y Gymraeg yn ei blatfform dysgu er mwyn symleiddio prosesau a gwella ansawdd data
- anogodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ei staff i nodi eu gallu yn y Gymraeg er mwyn eu cynnwys ar gyfeiriadur mewnol o siaradwyr Cymraeg, gan alluogi cydweithwyr i gael mynediad at gymorth ieithyddol pan fydd ei angen arnynt

Fe wnaeth hefyd gyflwyno pecyn cymorth cynllunio olyniaeth y gweithlu sy'n gofyn i reolwyr gynllunio ar gyfer anghenion sgiliau Cymraeg yn y dyfodol

- parhaodd Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Caerdydd i annog eu staff i gofnodi eu sgiliau iaith drwy systemau Adnoddau Dynol, ac roedd Caerdydd hefyd yn cadw cofrestr o ieithoedd cymunedol mewn gwasanaethau cymdeithasol i oedolion
- cyflwynodd Cyngor Sir Penfro fodel hunanasesu yn seiliedig ar raddfa cymhwysedd o 0–5 ar draws pedwar maes cyfathrebu ac mae wedi dechrau cysoni hyn â chategoriâu CEFR
- cynhaliodd Cyngor Bro Morgannwg asesiad o sgiliau Cymraeg i nodi siaradwyr rhugl a allai ddefnyddio offeryn cyfieithu digidol newydd.

Gyda'i gilydd, mae awdurdodau lleol yn symud tuag at fwy o gysondeb wrth gasglu data, gyda chefnogaeth canllawiau gan GCC, Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Fodd bynnag, mae amrywiadau'n parhau yn y systemau a'r fframweithiau a ddefnyddir, gan danlinellu pwysigrwydd fframweithiau cenedlaethol a safonau data i sicrhau cymhariaeth a chysondeb ar draws pob sector gwasanaethau cyhoeddus.

4.5. Canllawiau cynllunio'r gweithlu

Fel y nodwyd yn adroddiad blynyddol y llynedd, mae AaGIC wedi cyhoeddi adroddiad prwpasol [Canllawiau Cynllunio'r Gweithlu ar gyfer yr Iaith Gymraeg](#). Mae bellach yn cael ei hyrwyddo'n weithredol a'i ymgorffori mewn dogfennau polisi strategol. Yn nodedig, mae Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Llywodraeth Cymru (Ebrill 2025) yn cyfeirio'n uniongyrchol at y canllawiau hyn, gan nodi eu pwysigrwydd wrth ddatblygu'r gweithlu i ddiwallu anghenion yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae AaGIC hefyd yn bwriadu eu lledaenu ymhellach drwy gyflwyniadau mewn digwyddiadau a gynhelir gan Brifysgol Abertawe a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae GCC wedi cwblhau Cam 1 o strategaeth y gweithlu, ac mae ei becyn cymorth ei hun bellach ar waith. Cyfrannodd GCC at ganllawiau AaGIC cyn eu cyhoeddi ac mae wedi cyhoeddi cynlluniau gweithlu cenedlaethol ar gyfer sectorau allweddol gan gynnwys gofal uniongyrchol, gwaith cymdeithasol ac iechyd meddwl, llawer ohonynt mewn partneriaeth ag AaGIC. Er mwyn deall dulliau cynllunio lleol a rhanbarthol yn well, comisiynodd GCC Practice Solutions i lunio adroddiad sy'n nodi arferion cyfredol ac anghenion ar gyfer y dyfodol o ran cynllunio'r gweithlu yn effeithiol mewn perthynas â'r Gymraeg.

Gyda'i gilydd, mae'r ymdrechion hyn yn dangos bod AaGIC a GCC yn datblygu ac yn cymhwyso offer sy'n helpu i adnabod ac ehangu sgiliau Cymraeg y gweithlu. Mae'r offer hyn yn cael eu defnyddio mewn gwaith cynllunio'r gweithlu blynyddol gan fyrdau iechyd, awdurdodau lleol, a chyflogwyr eraill, ac maent yn dechrau llywio gwaith rheoleiddwyr ac arolygiaethau mewn ymdrech gydlynol i gefnogi'r nod o sicrhau bod anghenion yn ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu diwallu ar draws meysydd gwasanaeth sy'n flaenoriaeth, gan gyfrannu at ofal mwy diogel sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.

4.6. Y Cynnig Rhagweithiol wedi'i gynnwys yn y Ddyletswydd Ansawdd

Mae'r Cynnig Rhagweithiol eisoes o fewn cwmpas y [Ddyletswydd Ansawdd](#) ^[troednodyn 3] statudol fel bod anghenion ieithyddol yn cael eu trin fel elfen graidd o ddarparu gofal diogel a theg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Pwysleisiodd Llywodraeth Cymru fod y Ddyletswydd Ansawdd yn darparu ysgogiad polisi pwerus. Lle mae gwasanaethau'n defnyddio'r Ddyletswydd fel sail i strwythuro goruchwyliaeth gan y bwrdd, sgysiau comisiynu a sicrwydd mewnol – nid yw mor hawdd anwybyddu ystyriaethau ieithyddol ac maent yn fwy tebygol o gael eu hadlewyrchu mewn penderfyniadau.

Mae'r broses o drosi'r gyfatebiaeth polisi a grëwyd gan y Ddyletswydd Ansawdd yn arfer o ddydd i ddydd wedi parhau yn ystod cyfnod adrodd 2024-25 drwy ymgorffori awgrymiadau ynghylch y Gymraeg mewn templedi gwneud penderfyniadau, datblygu canllawiau lleol a gwneud defnydd gwell o ddata ieithyddol y gweithlu a chleifion.

³ Cyhoeddwyd y canllawiau statudol ar y Ddyletswydd Ansawdd yn 2023. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r GIG feddwl am sut y bydd eu penderfyniadau'n gwella gofal iechyd yn y dyfodol.

5. Thema 2: Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol

Mae Thema 2 yn tynnu sylw at bwysigrwydd datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a'r gweithlu'r dyfodol er mwyn cyflawni uchelgeisiau cyffredinol Mwy na geiriau. Mae hyn hefyd yn cael ei gydnabod yn [strategaeth y gweithlu iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) a gyhoeddwyd ar y cyd gan AaGIC a GCC sy'n amlinellu nodau uchelgeisiol ar gyfer gweithlu dwyieithog.

5.1. Y gweithlu presennol

5.1.1. Cynllunio strategol

Mae Safon 110 Safonau'r Gymraeg yn mandadu bod sefydliadau'n cyhoeddi cynllun 5 mlynedd i gynyddu capasiti i gynnig ymgynghoriadau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg. Er nad yw'r Safon yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol i wasanaethau clinigol gael eu darparu'n rheolaidd drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'n darparu sylfaen statudol sy'n cefnogi uchelgeisiau ehangach Mwy na geiriau, sy'n ceisio normaleiddio gofal drwy gyfrwng y Gymraeg fel elfen graidd o ansawdd gwasanaethau a phrofiad cleifion.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cyhoeddodd byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG cynlluniau 5 mlynedd i fodloni gofynion y Safon hon. I gydnabod arwyddocâd strategol y cynlluniau hyn, mae Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg wedi sefydlu trefniant cydweithio newydd, sy'n canolbwyntio'n benodol ar Safon 110 a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws lleoliadau clinigol. Mae'r bartneriaeth hon yn adlewyrchu ymrwymiad ar y cyd i feithrin gallu'r gweithlu, ymwreiddio'r Gymraeg mewn ymarfer clinigol, a sicrhau cysondeb rhwng canlyniadau rheoleiddiol ag uchelgeisiau polisi cenedlaethol.

Bydd y Comisiynydd yn monitro'r datblygiadau fel rhan o'i rôl reoleiddio, gan sicrhau bod byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yn cyflawni'r ymrwymadau yn eu cynlluniau. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo cydymffurfiaeth â Safon 110 a chefnogi cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau clinigol. Ochr yn ochr â hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth strategol, gan helpu i sicrhau cyfatebiaeth rhwng polisi a disgwyliadau rheoleiddiol a hyrwyddo'r newidiadau i'r system gyfan sydd eu hangen er mwyn ymwreiddio gofal clinigol cyfrwng Cymraeg.

Esboniodd rhai byrddau iechyd ffocws y cynlluniau hyn. Er enghraifft, mae cynllun BIP Hywel Dda yn anelu at sicrhau bod cleifion yn teimlo'n fwy cyfforddus yn trafod eu materion iechyd yn eu hiaith eu hunain, gan wella cyfathrebu a chanlyniadau cadarnhaol i gleifion. Mae cynllun BIP Aneurin Bevan yn canolbwyntio ar faes gwasanaeth allweddol er mwyn gweithredu strategaethau a mesur effaith. Mae cynllun BIP Betsi Cadwaladr yn parhau i ddatblygu gwasanaethau dwyieithog i gleifion drwy ganolbwyntio ar recriwtio, ymgysylltu a diwylliant. Yng nghynllun BIP Cwm Taf Morgannwg, ceir y rhestr gyntaf erioed i gael ei chyhoeddi gan y bwrdd iechyd o fylchau yn ei weithlu, yn manylu ar lefelau sgiliau staff o fewn gwahanol feysydd gwasanaeth ac yn blaenoriaethu gweithgareddau hyfforddi yn unol â hynny. Ffocws cynllun

BIP Bae Abertawe yw'r angen i ddeall galluedd Cymraeg ei weithlu ac anghenion defnyddwyr gwasanaethau yn well.

Cyhoeddodd ICC gynllun ymgynghori clinigol hefyd mewn ymateb i Safon 110, gan ganolbwyntio i ddechrau ar yr adrannau sgrinio a 'Helpa Fi i Stopio'. Mae blaenoriaethau yn y cynllun hwn yn cynnwys technoleg a data, systemau, a recriwtio ac uwchsgilio.

Fe wnaeth byrddau iechyd, sefydliadau iechyd cenedlaethol ac awdurdodau lleol hefyd ymgorffori dulliau o nodi bylchau mewn sgiliau o fewn strategaethau corfforaethol perthnasol a mynd i'r afael â'r bylchau hynny. Yn gyffredinol, roedd strategaethau perthnasol yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud ag Adnoddau Dynol, datblygu'r gweithlu a diwylliant sefydliadol. Er enghraifft, ystyriodd WAST fylchau mewn sgiliau iaith o fewn ei Gynllun Gweithlu Strategol. Fe wnaeth AaGIC gynnwys neu ôl-osod datblygu sgiliau Cymraeg mewn cynlluniau gweithlu penodol ar gyfer gwasanaethau amenedigol, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a gwasanaethau iechyd meddwl. Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi datblygu cynllun gweithlu perthnasol ac mae Cyngor Caerdydd wedi cynnwys recriwtio staff Gymraeg eu hiaith fel maes ffocws yn Strategaeth y Gweithlu Gwasanaethau Oedolion 2024-28. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fod gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu llywodraethu gan strategaeth a chynllun gweithredu'r sefydliad ar gyfer y Gymraeg a'u bod wedi ymrwymo i hynny. Cynhaliodd Cyngor Sir Caerfyrddin archwiliad manwl a phroses glanhau data fanwl gyda'r holl staff yn yr Adran Gymunedau. Hyrwyddodd 'Strategaeth y Gymraeg mewn Gofal Iechyd' BIA Powys yr angen i ymgorffori sgiliau Cymraeg mewn prosesau cynllunio'r gweithlu. Penododd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre Dîm Cynllunio'r Gweithlu newydd gyda chyfrifoldeb cyffredinol dros fynd i'r afael â heriau'n ymwneud â sgiliau Cymraeg.

Nododd byrddau iechyd, sefydliadau iechyd cenedlaethol ac awdurdodau lleol wasanaethau a grwpiau targed penodol y maent yn eu blaenoriaethu o ran datblygu sgiliau iaith. Roedd hyn yn aml yn cynnwys y grwpiau blaenoriaeth fel y nodwyd gan Mwy na geiriau (yn benodol, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith) yn ogystal â meysydd gwasanaeth lle roedd bwlch neu angen clir wedi'i nodi broses mapio sgiliau. Er enghraifft, recriwtiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful siaradwr Cymraeg i'r Hwb Cymorth Cynnar ar ôl darganfod nad oedd unrhyw siaradwyr Cymraeg yn y maes gwasanaeth hwnnw.

Fe wnaeth hefyd amlygu enghreifftiau o ddulliau corfforaethol o ddatblygu sgiliau a chodi ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg. Er enghraifft, parhaodd tîm gwasanaethau Cymraeg BIP Bae Abertawe i ddarparu hyfforddiant a gweithgareddau. Roedd y profiadau hyn yn amrywio o sesiynau sgwrsio wythnosol drwy Teams i sesiynau wyneb yn wyneb. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili adran bwrpasol ar y fewnwyd ar gyfer gwybodaeth am y Gymraeg, nifer o ddogfennau corfforaethol sydd ar gael yn ddwyieithog a chyfranogiad y tîm cydraddoldeb a'r Gymraeg yn rhaglen sefydlu'r gwasanaethau cymdeithasol. Sicrhodd Cyngor Sir Ceredigion fod yr holl staff gofal cymdeithasol a nodwyd fel rhai nad oeddent yn bodloni gofynion ALTE yn deall bod disgwyl iddynt ddilyn cyrsiau Cymraeg.

5.1.2. Diffinio'r gofynion o ran sgiliau Cymraeg

O dan Safonau'r Gymraeg, mae'n ofyniad statudol i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol ddiffinio lefel y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer pob rôl ac adlewyrchu hynny mewn hysbysebion swyddi.

Er gwaethaf y gofynion statudol hyn, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi adrodd yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf, er bod llawer iawn o waith da yn cael ei wneud i wella arferion recriwtio, bod amrywiad sylweddol o hyd yn y ffordd y mae anghenion ieithyddol swyddi gwag yn cael eu nodi a'u mynegi mewn hysbysebion swyddi. O ganlyniad, mae'n dal yn aneglur i ymgeiswyr mewn rhai achosion beth yn union yw'r gofynion ieithyddol ar gyfer y swydd.

Yn ystod 2024-25, cyfarfu grŵp bach o gynrychiolwyr o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol i drafod y diffiniad cenedlaethol o sgiliau iaith. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Mae byrddau iechyd, sefydliadau iechyd cenedlaethol ac awdurdodau lleol, yn y rhan fwyaf o achosion, wedi rhoi systemau manwl ar waith i ddiffinio lefel y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ym mhob hysbyseb swydd. Roedd ystyried a nodi gofynion ieithyddol yn aml yn rhan o brosesau recriwtio. Mae hyn yn cynnwys ffurflenni ac offer AD safonol i gynorthwyo rheolwyr i ddiffinio lefelau sgiliau ar gyfer pob swydd wag. Er enghraifft, newidiodd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ei ffordd o asesu gofynion ieithyddol: yn flaenorol, cynhaliwyd asesiad iaith gyda phob swydd-ddisgrifiad newydd a gynhyrchwyd ond nawr, mae'r asesiad hwn wedi'i gynnwys o fewn y system TRAC, sy'n golygu nad yw'n bosibl cwblhau'r hysbyseb heb wneud yr asesiad. Dewisodd rhai sefydliadau, fel Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Dinas Casnewydd, hysbysebu pob swydd newydd fel un ble mae'r 'Gymraeg yn ddymunol'. Hysbysebodd Cyngor Sir Caerfyrddin bob swydd ar lefel 1 o leiaf, yn erbyn fframwaith ALTE. Mae dull BIP Cwm Taf Morgannwg yn cynnwys darparu dogfen ganllaw fanwl sy'n rhoi gwybodaeth fwy penodol i ymgeiswyr am yr hyn y mae lefelau CEFR yn ei olygu a'r hyn y mae sgiliau iaith yn ei olygu o ran eu cais.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, roedd enghreifftiau o gamau pellach a gymerwyd gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ddefnyddio'r diffiniad o ofynion ieithyddol ar gyfer swyddi i ysgogi gwelliant. Er enghraifft, yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, cafodd cynllun gwarantu cyfweiliad a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2024 ar gyfer siaradwyr Cymraeg lefel 3 ac uwch (sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol) effaith gadarnhaol o ran cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio yn y Cyngor; mae ymgeiswyr wedi cael cynnig swydd neu wedi dechrau gweithio drwy'r cynllun. Parhaodd Cyngor Gwynedd â'i bolisi o hysbysebu pob swydd i ddechrau fel un ble mae'r 'Gymraeg yn hanfodol'. Adolygodd BIA Powys y ffordd y mae gofynion ynghylch y Gymraeg yn cael eu geirio ar hysbysebion swyddi ac mewn swydd-ddisgrifiadau er mwyn darparu disgrifiad mwy cywir yn ogystal â darlun mwy cadarnhaol o'r Gymraeg o fewn y maes gofal iechyd.

Mewn lleiafrif bach o sefydliadau iechyd cenedlaethol ac awdurdodau lleol, mae gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau'r broses o ddiffinio lefel y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol mewn hysbysebion swyddi.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn parhau i weithio'n agos gyda sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol dros y cyfnod nesaf i fynd i'r afael â'r anghysondebau. Bydd y gwaith hwn hefyd yn rhan o'r paratodau ehangach ar gyfer newidiadau posibl yn sgil pasio Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, sy'n debygol o gyflwyno fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer asesu sgiliau iaith a chynllunio'r gweithlu.

5.1.3. Datblygu sgiliau a hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, parhaodd Llywodraeth Cymru i hyrwyddo Cynllun y Gymraeg ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Comisiynodd Llywodraeth Cymru hefyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddatblygu cwrs Cymraeg newydd ac adnoddau ategol sy'n canolbwyntio ar weithwyr tramor, ac mae gwaith hefyd ar y gweill i ddatblygu cwrs pwrpasol ac adnoddau ategol ar gyfer y gweithlu sy'n cefnogi'r rhai â dementia, ac ar gyfer y gweithlu sy'n cefnogi pobl niwrowahanol.

Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd 11 o diwtoriaid (sy'n cyfateb i 9 cyfwerth ag amser llawn) yn cyflwyno Cynllun y Gymraeg ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol o fewn byrddau iechyd. Darparwyd tiwtor amser llawn hefyd ar gyfer y sector gofal cymdeithasol. Ehangodd y cynllun hefyd o'i ffocws gwreiddiol ar gyrsiau codi hyder i ddarparu: cyrsiau blasu (Cwrs Croeso gydag 1.5 awr o ddysgu a Croeso i Bawb gyda 10 awr o ddysgu); darpariaeth arbenigol; cyrsiau preswyl ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a gofal lliniarol; a gweithio mewn partneriaeth strategol gyda phartneriaid fel Coleg Brenhinol y Seiciatryddion.

Parhaodd elfen Codi Hyder y cynllun o fewn byrddau iechyd ac o fewn rhai darparwyr gofal cymdeithasol yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Canfu gwerthusiad allanol o'r cynllun (a oedd yn canolbwyntio ar ddysgwyr a oedd wedi derbyn darpariaeth Codi Hyder) fod 91% o ddysgwyr yn fwy hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chydweithwyr ac 88% yn fwy hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chleifion a theuluoedd. Nododd y gwerthusiad natur un-i-un, a hyblyg y ddarpariaeth Codi Hyder fel un o gryfderau penodol y cynllun.

Cyflwynodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol y cyrsiau Cymraeg cwrteisi 'Croeso' a 'Croeso i Bawb'. Roedd y nifer a ddilynodd ac a ddefnyddiodd y cyrsiau hyn ymysg byrddau iechyd yn anghyson yn ystod y cyfnod adrodd, gyda rhai wrthi'n ymgorffori'r cyrsiau yn eu cynnig cyffredinol ac eraill eisoes yn annog staff i ddilyn y cwrs (gyda llwyddiant cymysg). Manylodd rhai byrddau iechyd ar yr heriau yr oeddent wedi'u hwynebu wrth gyflwyno'r cyrsiau Cymraeg cwrteisi. Er enghraifft, nododd BIA Powys mai dim ond 12 aelod o staff a fynychodd gwrs cwrteisi yn ystod y cyfnod adrodd ond cydnabu fod nifer y cyfleoedd a gynigiwyd i ddilyn y cwrs wedi bod yn fach. Nododd BIP Bae Abertawe fod yr oedi cyn cyflwyno'r cyrsiau yn golygu bod llai o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant nag y byddent wedi'i obeithio ond bod cynllun cadarn ar waith ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Astudiaeth achos: Prosiect Llais y Lle yn BIP Bae Abertawe

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, dyfarnwyd grant i BIP Bae Abertawe gan Gyngor Celfyddydau Cymru i gynnal y prosiect Llais y Lle i staff sy'n dysgu Cymraeg. Roedd y bwrdd iechyd yn cydnabod bod ganddo gymuned glos o staff, a bod llawer ohonynt eisoes

yn dysgu Cymraeg. Cyn gwneud cais am y grant, gweithiodd y Swyddog Iaith yn galed i ganfod pa fath o brofiadau dysgu y byddai'r staff yn eu gwerthfawrogi.

Nod y prosiect Llais y Lle oedd ehangu'r defnydd creadigol o'r Gymraeg o fewn cymunedau. Gwelodd y prosiect artistiaid amlwg o Gymru yn ymweld â staff ac yn cynnal gweithdai gyda nhw, gan archwilio'r defnydd o iaith a gwahanol gyfryngau. Mae hyn yn cynnwys barddoniaeth a rapio gyda'r bardd Aneurin Karadog, gweithio gyda'r cartwnydd Siôn Thomas Owen, sesiwn perfformio gydag Anwen Carlisle a sesiwn gyda'r peiriannydd sain a'r cyfansoddwr Dan Lawrence.

Gellir gweld manylion pellach mewn [fideo gwerthuso byr Llais y Lle](#).

Dywedodd y Tiwtor Cyswllt yn BIP Bae Abertawe:

“Heb os, maen nhw wedi elwa'n fawr o'r profiadau achos beth sy'n digwydd yn ystod y dosbarthiadau, mae'r dysgwyr yn canolbwyntio ar ramadeg, ar ynganu, ar dreiglo'n gywir am ddwy awr, ond yn y sesiynau yma [Llais y Lle], maen nhw'n dysgu sgil ond drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Felly maen nhw'n canolbwyntio mwy ar y sgil newydd a jyst yn digwydd bod yn siarad Cymraeg. Ac mae e'n profi iddyn nhw bod nhw'n gallu defnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu ar gyfer pwrpas arbennig.”

Meddai un o'r dysgwyr:

“Mae heddiw gyda Rhys Padarn [Jones] wedi bod yn bleserus iawn. Clywed y Gymraeg yn y cefndir, gwneud y gweithgareddau gydag ef ac a chael ein trochi yn yr iaith a'r diwylliant.”

Roedd dulliau awdurdodau lleol o gyflwyno isafswm o Gymraeg cwrteisi yn gymysg yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Prin oedd y rhai a gyfeiriodd at y cyrsiau 'Croeso' a 'Croeso i Bawb', gan fanylu ar eu gwaith mewnol eu hunain i annog Cymraeg cwrteisi yn lle hynny. Roedd hyn yn cynnwys mynnu dull dwyieithog o gyfathrebu o fewn y sefydliad (fel yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili) a threialu Cytundebau Tîm a oedd yn cynnwys adran yn ymrwymo i ddefnyddio o leiaf lefel cwrteisi o Gymraeg (yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).

Mae Tabl 5.1 yn nodi nifer y dysgwyr yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a gafodd fynediad at gyrsiau hyfforddi a datblygu sgiliau Cymraeg drwy'r Cynllun Iaith ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.


Tabl 5.1: Nifer y dysgwyr a gafodd fynediad at ddarpariaeth drwy'r Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer iechyd a Gofal Cymdeithasol yn 2024-25

Darpariaeth	Nifer y dysgwyr
Cwrs Codi Hyder a gofal ôl-weithredol	796
Gweithdai 'Croeso' a 'Croeso i Bawb' gyda thiwtoriaid	440
Cyrsiau cyffredinol	165
Cyrsiau hunanastudio 1-10 awr	818
Cyrsiau hunanastudio cyffredinol	674
Gwersi un-i-un	4
Cyfanswm	2,897

Ffynhonnell: Adroddiad diweddariad cynnydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol 2024-25

Roedd hyfforddiant gorfodol ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi'i sefydlu'n bennaf o fewn sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol erbyn y cyfnod adrodd hwn. Mae'r hyfforddiant hwn fel arfer yn cael ei gynnwys mewn prosesau sefydlu a/neu brosesau hyfforddi blynyddol a'i fonitro'n rheolaidd. Mae data sydd ar gael ar gyfer byrddau iechyd, ymddiriedolaethau a sefydliadau iechyd cenedlaethol yn dangos, ym mron pob achos, bod dros 80% o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant. Nododd bron pob sefydliad a rannodd ddata yn ystod cyfnodau adrodd 2023-24 a 2024-25 gynnydd yng nghyfran y staff a gwblhaodd yr hyfforddiant, fel y dangosir yn Ffigur 5.1.

Ffigur 5.1: Canran y staff ym mhob bwrdd iechyd, ymddiriedolaeth a sefydliad iechyd cenedlaethol sydd wedi cwblhau'r cwrs ymwybyddiaeth iaith ar ddiwedd cyfnod adrodd 2024-25 a diwedd cyfnod adrodd 2023-24



Disgrifiad o'r ffigur: Mae'r siart hwn yn dangos bod canran y staff ym mhob bwrdd iechyd, ymddiriedolaeth a sefydliad iechyd cenedlaethol sydd wedi cwblhau'r cwrs ymwybyddiaeth iaith yn amrywio o 70% i 100%.

Ffynhonnell: Adroddiadau cynnydd 2023-24 a 2024-25

Darparwyd enghreifftiau yn ystod y cyfnod adrodd hwn o sut y cafodd hyfforddiant gorfodol – a chyfleoedd hyfforddi ehangach – eu hyrwyddo i staff. Roedd hyn yn cynnwys gweithgareddau i ddatblygu dealltwriaeth staff o werth yr iaith. Er enghraifft, yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, anogir pob gweithiwr sy'n ymgymryd â chymhwyster drwy'r Ganolfan Asesu Fewnol neu Gynllun Prentisiaeth dilys i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gwblhau eu dyfarniad neu gymhwyster. Cyhoeddir rhaglen flynyddol o gyfleoedd dysgu Cymraeg hefyd. Datblygodd grŵp Mwy na geiriau Cyngor Gwynedd fideos i sicrhau bod ei weithlu'n deall yr effaith gadarnhaol y gall defnyddio'r Gymraeg ei chael ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Cyflwynodd tîm gofal cymdeithasol Cyngor Sir Conwy 20 cwrs hyfforddi Mwy na geiriau, a oedd ar gael i bob aelod o staff sy'n gweithio yn y maes gofal cymdeithasol yng Nghonwy, gan gynnwys o fewn sefydliadau gwirfoddol a darparwyd y sector annibynnol.

5.1.4. Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo yn genedlaethol

Fel y nodwyd yn adran 3.2, comisiynodd Llywodraeth Cymru contractwr allanol i ddatblygu animeiddiad newydd a chwe ffilm ategol i hyrwyddo Mwy na geiriau a blaenoriaethau ar gyfer y Gymraeg. Y bwriad yw i'r adnoddau hyn gael eu defnyddio a'u hyrwyddo gan randdeiliaid. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, drwy waith Gofalwn Cymru, cynhaliodd GCC ymgyrch i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector gofal, gyda'r nod o annog mwy o bobl i wneud cais am rolau gofal a/neu aros mewn rolau gofal yng Nghymru. Ochr yn ochr â hyn, canolbwyntiodd gwaith cyfathrebu GCC ar godi ymwybyddiaeth o werth yr iaith o fewn lleoliadau gofal a'r potensial ar gyfer gofal o ansawdd gwell. Cododd GCC ymwybyddiaeth hefyd o bwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol yn yr eisteddfod Genedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys 'diwrnod gofal', amrywiaeth o straeon a neilltuo rhan o wefan Gofalwn Cymru i rannu adnoddau.

Bu byrddau iechyd ac awdurdodau lleol hefyd yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o fanteision y Gymraeg yn eu rhanbarthau. Mae enghreifftiau o'r mathau o weithgareddau yn cynnwys:

- hyrwyddo cyfleoedd dysgu'n rheolaidd a sicrhau eu bod yn hawdd cael gafael arnynt (er enghraifft yng Nghyngor Caerdydd, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bro Morgannwg)
- cynnal digwyddiadau ymgysylltu rheolaidd ar draws eu hardaloedd priodol a datblygu eu hadnoddau eu hunain (er enghraifft yn BIP Aneurin Bevan)
- rhedeg neu gefnogi ymgyrchoedd yn eu rhanbarthau a dathlu diwrnodau pwysig yn y calendr Cymraeg (er enghraifft yn BIP Betsi Cadwaladr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot)
- gwerthuso hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a rhannu astudiaethau achos i ddangos effaith dysgu Cymraeg (er enghraifft yn BIP Cwm Taf Morgannwg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bro Morgannwg)
- defnyddio technegau hyrwyddo a marchnata iaith effeithiol (er enghraifft yn BIP Cwm Taf Morgannwg)
- defnyddio rolau fel hyrwyddwyr y Gymraeg i hyrwyddo'r iaith (er enghraifft yn BIP Bae Abertawe)
- cymryd rhan mewn gwobrau'r Gymraeg neu gynnal gwobrau o'r fath (er enghraifft yn BIP Betsi Cadwaladr ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre).

5.2. Gweithlu'r dyfodol

5.2.1. Data

Mae'n ofynnol i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol fonitro nifer y myfyrwyr dwyieithog sy'n cael eu hyfforddi fel gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol cymdeithasol bob blwyddyn. Adroddodd AaGIC fod proses fonitro gadarn bellach ar waith i sicrhau bod sefydliadau addysg uwch yn llenwi ffurflenni data, a bod y broses hon yn cael ei

gwella'n flynyddol yn ôl yr angen. Roedd y wybodaeth ar y ffurflenni data yn galonogol ar y cyfan, gyda phedair prifysgol yn nodi bod gan dros 25% o fyfyrwyr a oedd yn cofrestru sgiliau da (Lefel 3) neu well yn y Gymraeg, gydag un brifysgol yn nodi dros 50%.

Dangosodd data GCC fod dros 50% o fyfyrwyr gwaith cymdeithasol yn siarad rhywfaint o Gymraeg, a bod 12.8% yn rhugl. Addysgir un cwrs gwaith cymdeithasol yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, tra bod yn rhaid i bob cwrs gynnwys cynllun gweithredu ar gyfer y Gymraeg. Gall unrhyw fyfyrwr gyflwyno aseiniadau yn y Gymraeg ym mhob cwrs, gan gynnwys lleoliadau. Nododd GCC fod angen gwella ffurflenni data ond roedd y gwaith hwn eisoes ar y gweill.

5.2.2. Datblygu darpariaeth ddwyieithog

Mewn ffurflenni blynyddol gan sefydliadau addysg uwch a chyfarfodydd adolygu yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gofynnodd AaGIC am ddata ar gwblhau modiwlau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a sgiliau dwyieithog eu myfyrwyr. Gofynnodd AaGIC hefyd am fanylion ynghylch y capasiti addysgu sydd ei angen i gyflwyno rhaglenni dwyieithog. Y flwyddyn nesaf, bydd AaGIC yn ymgymryd â dull thematig o gasglu data gan brifysgolion, ac un o'r themâu hyn fydd y Gymraeg.

Dangosodd data'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer y cyfnod adrodd fod 63 o gyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol israddedig yn cynnig cyfle i fyfyrwyr astudio o leiaf draean o'u cwrs (40 credyd neu uwch) drwy gyfrwng y Gymraeg. Nododd y Coleg hefyd gyrsiau lle nad yw'n bosibl astudio o leiaf draean o'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys optometreg, deintyddiaeth a therapi galwedigaethol. Yn ystod y cyfnod adrodd, cefnogodd y Coleg amrywiol gyrsiau nyrsio, bydwreigiaeth, gwaith cymdeithasol, therapi lleferydd ac iaith, meddygaeth, parafeddyg a fferylliaeth gyda chyllid grant.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cyhoeddodd y Coleg hefyd adolygiad o'i gynllun ['Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Gymraeg'](#). Cydnabu angen penodol i gynyddu'r gweithgareddau a oedd yn digwydd yn ymwneud â hyder a rhuglder o ran yr iaith a datblygodd y Coleg gynllun gweithredu mewn ymateb i'r adolygiad. Darparodd y Coleg ei ganllawiau statudol cyntaf i Medr yn ystod y cyfnod adrodd hwn hefyd.

Gweithiodd GCC i sicrhau bod gan bob cwrs gofal cymdeithasol gynlluniau gweithredu ar y Gymraeg ar waith, a oedd yn cael eu hadolygu yn ystod y broses o gymeradwyo cyrsiau a thrwy brosesau monitro blynyddol. Addysgir y cwrs MA ym Mhrifysgol Bangor yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'n cyfrif am oddeutu 20-25 o fyfyrwyr y flwyddyn. Trefnodd awdurdodau lleol lleoliadau myfyrwyr ac fe wnaeth GCC fonitro'r capasiti o ran y Gymraeg drwy ffurflenni blynyddol. Fodd bynnag, nid yw pennu lefel y ddarpariaeth Gymraeg ar hyn o bryd yn rhywbeth sy'n cael ei fesur fel rhan o brosesau GCC ond mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweld gwerth posibl mewn dull unedig gydag AaGIC.

Ymgysylltodd GCC hefyd â'r Panel Gwaith Cymdeithasol, wedi'i hwyluso gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, i lywio a chefnogi materion yn ymwneud â'r Gymraeg.

Manylodd ambell awdurdod lleol ar ei waith ei hun ar ddatblygu darpariaeth ddwyieithog ar lefel leol. Parhaodd Cyngor Gwynedd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a sgiliau dwyieithog ymhlith myfyrwyr, gan gynnwys y capasiti addysgu angenrheidiol. Gweithiodd y Cyngor gyda darparwyr addysg bellach i gyflwyno cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg ond canfu mai ychydig o brentisiaethau gofal cymdeithasol sydd ar gael yng Nghymru. Mae gwaith yn parhau gyda'r Academi Gofal Cymdeithasol yng Ngwynedd i ddarparu llwybr dysgu proffesiynol clir gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Sicrhaodd Cyngor Sir Penfro hefyd fod ei gwrs ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gyfer staff gofal cymdeithasol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg a datblygodd gwrs newydd o'r enw y Gymraeg – Yr Hanfodion ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol.

Mae'r Cynllun Doctoriaid Yfory, a ariennir drwy AaGIC, bellach wedi cael ei ymestyn i yrfaoedd iechyd a gofal cymdeithasol mwy cyffredinol gan gynnwys deintyddiaeth, o dan gynlluniau 'Doctoriaid Yfory', 'Deintyddion Yfory' a 'Gweithwyr Iechyd Yfory'. Mae data'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dangos bod cyfanswm o 224 o unigolion wedi cofrestru ar y tri chynllun.

Cyflwynwyd cynllun presennol Bwrsariaeth y GIG yng Nghymru yn 2017 ond y ffocws yn ystod y cyfnod adrodd hwn fu annog mwy o fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru i ystyried gofal iechyd, deintyddiaeth a meddygaeth. Mae hyn fel arfer yn golygu bod myfyrwyr yn fwy tebygol o fod â rhywfaint o allu yn y Gymraeg, yn enwedig y rhai sy'n gadael yr ysgol. Gwnaed gwaith penodol gan brifysgolion Cymru (gan ysgolion meddygol Cymru yn benodol) ac Ysgol Deintyddiaeth Caerdydd, ynghyd â rhaglenni fel Rhaglen Seren.

Mae agor Ysgol Feddygol newydd yng Ngogledd Cymru yn 2024 hefyd wedi annog ceisiadau gan fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru ac yn ddiweddar mae wedi cwblhau cwrs peilot 'Mwy na geiriau: y Gymraeg fel sgil glinigol' yn llwyddiannus.

5.2.3. Ymgysylltu â gweithlu'r dyfodol

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, datblygodd sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol adnoddau dwyieithog i hyrwyddo gyrfaedd yn y sector ac i amlygu manteision sgiliau Cymraeg i'r rhai sy'n ystyried gyrfa o'r fath. Bellach, y porth [Tregyrfa](#), a ddatblygwyd gan AaGIC, sydd wedi'i letya gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yw'r brif ffynhonnell o wybodaeth ac adnoddau ar gyfleoedd swyddi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol Rhoddodd AaGIC gannoedd o adnoddau dwyieithog ar y porth hwn. Datblygodd GCC adnoddau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd, gan gynnwys adnoddau addysgu dwyieithog ar gyfer athrawon a chynghorwyr gyrfaedd.

Astudiaeth achos: Her Cymraeg yn y Gweithle Gyrfa Cymru

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, datblygodd Cynghorydd Cyswllt Busnes o Gyrfa Cymru, ochr yn ochr â staff gofal cymdeithasol yng Nghyngor Gwynedd, 'her Cymraeg yn y gweithle ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol' i'w defnyddio mewn ysgolion ar y cyd â chyflogwr lleol. Mae'r her hon yn gofyn i ddysgwyr ddylunio adnoddau y gallai staff newydd eu defnyddio mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol i'w helpu i ddefnyddio geiriau ac ymadroddion

Cymraeg yn eu rôl. Cyflwynwyd yr her mewn nifer o ysgolion ledled Cymru, boed yn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu Saesneg.

Cyflwynodd BIP Bae Abertawe yr her mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru gyda disgyblion Blwyddyn 9 yn Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed. Ar gyfer yr her hon, bu'r dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau bach i ddylunio adnoddau Cymraeg ymarferol a diddorol wedi'u teilwra ar gyfer rolau prentisiaid y GIG, gan gynnwys gweithwyr cymorth gofal iechyd, cynorthwyyr arlwy, prentisiaid gweinyddu busnes, technegwyr TG a chynorthwyyr domestig. Roedd syniadau gan ddisgyblion yn cynnwys llewys cyllyll a ffyrch ailgylchadwy gyda geirfa allweddol arnynt ar gyfer staff arlwy, atodiadau i linyddau gwddf gyda geiriau ac ymadroddion Cymraeg a oedd yn ymwneud yn benodol â'r rôl a chymorth cof Cymraeg pwrpasol ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd. Y dyluniad buddugol oedd teclyn arloesol wedi'i ddylunio i'w gysylltu i gefn ffôn clyfar, yn cynnwys cwestiynau allweddol, atebion a geirfa Gymraeg ar gyfer rolau penodol. Canolbwyntiodd y myfyrwyr y tu ôl i'r syniad buddugol ar hygyrchedd, ymarferoldeb a'r gallu i addasu adnoddau i staff sy'n gweithio mewn gwahanol leoliadau mewn bwrdd iechyd.

Fel rhan o ddatganiad i'r wasg, dywedodd cynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe:

“roedd y creadigrwydd, y gwaith tîm a'r ffocws ymarferol a ddangoswyd gan y dysgwyr yn drawiadol iawn. Roedd yr her gweithle hon yn ffordd wych o ddangos i ddisgyblion werth gwirioneddol dysgu a siarad Cymraeg, yn enwedig o fewn GIG Cymru, lle mae gennym ddyletswyddau penodol i ddarparu gwasanaethau dwyieithog ac i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith y staff. Roedd yn wych cael y cyfle i helpu disgyblion i ddeall bod iaith yn elfen hanfodol o ofal iechyd effeithiol, oherwydd mae ymateb i anghenion unigol cleifion a defnyddwyr gwasanaethau bob amser yn dechrau gyda chyfathrebu da.”

Cynhaliodd byrddau iechyd ac awdurdodau lleol eu gweithgareddau ymgysylltu eu hunain yn ystod y cyfnod adrodd hwn, yn benodol gan gynnal digwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb mewn ysgolion ac ar safleoedd darparwyr addysg eraill. Er enghraifft, cynhaliodd BIP Aneurin Bevan y rhaglen 'Syrjeri Sgiliau' (a hyrwyddir ar borth Tregyrfa hefyd), sef cyfres o wersi sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru sy'n anelu at herio camsyniadau, addysgu disgyblion am yrfaeodd sydd ar gael a'u hysbrydoli i ystyried iechyd fel gyrfa bosibl. Yn BIA Powys, fel rhan o'r Academi Iechyd a Gofal – Cynllun Gyrfaoedd ac Addysg Menter i Bobl Ifanc, rhoddodd cynrychiolwyr o BIA Powys gyflwyniadau ar yrfaeodd mewn iechyd a gofal cymdeithasol i ddisgyblion ysgolion uwchradd. Roedd y cyflwyniadau hyn yn cynnwys sleidiau a fideo ar bwysigrwydd sgiliau Cymraeg mewn gofal iechyd. Fel rhan o ymgyrch recriwtio Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar gyfer gyrfaoedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ymwelodd staff ag ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg i dynnu sylw at bwysigrwydd gofalu o fewn diwylliant Cymru. Bu GCC hefyd yn gweithio gyda Rhwydwaith Gyrfaoedd Iechyd a Gofal i gynnal sesiynau a oedd yn canolbwyntio ar y Gymraeg i helpu i amlygu pwysigrwydd a gwerth y Gymraeg yng nghyd-destun gofal i bartneriaid allweddol.

Mynychodd byrddau iechyd, awdurdodau lleol a sefydliadau iechyd cenedlaethol ffeiriau gyrfaedd, gweithdai, carwselau gwybodaeth a/neu ffug gyfweiliadau hefyd. Er enghraifft, aeth PCGC i ffeiriau gyrfaedd ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Bangor. Aeth ICC i ffair gyrfaedd ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ne Cymru. Mynychodd awdurdodau lleol gan gynnwys Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Bro Morgannwg ddigwyddiadau gyrfaedd yn eu hysgolion lleol hefyd. Hyrwyddodd sefydliadau iechyd cenedlaethol, fel ICC a PCGC, werth sgiliau Cymraeg o fewn y sector yn ystod yr eisteddfod genedlaethol hefyd.

Bu awdurdodau lleol (fel Cyngor Gwynedd) a byrddau iechyd (fel BIP Betsi Cadwaladr) hefyd yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i hyrwyddo pwysigrwydd a manteision y Gymraeg fel sgil yn y gwaith. Bu AaGIC hefyd yn gweithio gyda Gyrfa Cymru ar sesiynau 'hyfforddi'r hyfforddwr' i sicrhau bod y mynychwyr yn cael y wybodaeth briodol i gefnogi a chynghori'r rhai sy'n chwilio am yrfaedd yn y sector iechyd.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cynigiodd rhaglen ehangu mynediad IGDC leoliadau profiad gwaith i fyfyrwyr o ysgolion Cymraeg lleol. Fe wnaeth IGDC hefyd gymryd rhan yn rheolaidd mewn ffeiriau gyrfaedd a ffug gyfweiliadau.

Astudiaeth achos: Profiad gwaith yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliwyd menter gydweithredol gyda gweithwyr cymdeithasol ymgynghorol o wasanaethau oedolion a phlant i ddatblygu wythnos profiad gwaith ar gyfer disgyblion blwyddyn 10 sy'n mynychu ysgolion ledled ardal Castell-nedd Port Talbot, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg. Am y tro cyntaf, roedd y rhaglen hon ar gael i bob myfyriwr a oedd yn mynegi diddordeb mewn dilyn gyrfa mewn gwaith cymdeithasol. Yn hanesyddol, roedd ceisiadau am brofiad gwaith o fewn gwasanaethau cymdeithasol wedi cael eu gwrthod oherwydd pryderon ynghylch amlygu myfyrwyr i wybodaeth a allai fod yn sensitif ac yn emosiynol. Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, cynlluniodd gweithwyr cymdeithasol ymgynghorol raglen strwythuredig yn cynnwys sesiynau gwybodaeth, gweithgareddau ac arddangosiadau. Bu'r rhaglen yn hynod lwyddiannus, ac mae rhanddeiliaid bellach yn cymryd rhan weithredol mewn ymdrechion i ehangu a gwella'r fenter yn y blynyddoedd i ddod, gan alluogi mwy o gyfranogiad ymhlith disgyblion blwyddyn 10.

Nododd cwpl o fyrdau ac ymddiriedolaethau iechyd, yn ystod y cyfnod adrodd hwn, fod eu gwaith wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau eraill (megis bodloni Safonau'r Gymraeg) yn hytrach na gweithgareddau ymgysylltu â gweithlu'r dyfodol. Fodd bynnag, roedd cynlluniau ar waith i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach yn y blynyddoedd i ddod.

6. Thema 3: Rhannu arferion gorau a dull galluogi

Mae rhannu arferion gorau ymysg ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn elfen allweddol o'r cynllun Mwy na geiriau. Drwy gydol y cyfnod adrodd 2024-25, parhawyd i roi cryn sylw i'r maes hwn.

6.1. Rhannu arferion gorau

Ar draws y sector iechyd, parhaodd byrddau iechyd, ymddiriedolaethau a sefydliadau cenedlaethol i rannu arferion da ymysg ei gilydd, gan gynnwys yng ngrŵp rheolwyr strategol cenedlaethol Cymru.

Cyfrannodd sefydliadau iechyd adnoddau a gwybodaeth i ddatblygu [Hwb Iaith](#) y GIG ymhellach yn ystod y cyfnod hwn. Datblygwyd y porth adnoddau hwn yn ystod cyfnod adrodd 2023-24 gan IGDC mewn cydweithrediad â Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru. Diweddarwyd y wefan gyda gwybodaeth am y Gymraeg ac adnoddau dysgu fel y rhai sydd ar gael drwy GCC, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Comisiynydd y Gymraeg, a Chymunedau Digidol Cymru. Adroddwyd hefyd bod yr adnoddau sydd ar gael ar y wefan wedi cael eu rhannu gan bartneriaid ymysg eu staff eu hunain yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Astudiaeth achos: presenoldeb ar y cyd ar gyfer Mwy na geiriau

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gwnaeth partneriaid iechyd baratoadau i gydlynu presenoldeb ar y cyd o dan y strategaeth Mwy na geiriau yn eisteddfod yr Urdd, a gynhaliwyd ym Mharc Margam yng Nghastell-nedd Port Talbot ym mis Mai 2025, dan arweiniad BIP Bae Abertawe. Dyma'r achlysur cyntaf i bartneriaid iechyd gydweithio i gynllunio presenoldeb ar y cyd ar gyfer Mwy na geiriau mewn digwyddiad cenedlaethol. Os bydd yn llwyddiannus, y gobaith yw y bydd y model hwn yn sail i bresenoldeb mewn digwyddiadau cenedlaethol yn y dyfodol.

Mae dull cydweithredol o fynychu digwyddiadau o'r fath yn lleihau costau i sefydliadau unigol pan fydd eisteddfod yn ymweld â'u rhanbarth, gan sicrhau y gall pob partner elwa o'r cyfle hefyd. Heb y dull gweithredu ar y cyd hwn, mae'n debygol na fyddai'r bwrdd iechyd arweiniol, BIP Bae Abertawe, wedi gallu ariannu ei bresenoldeb yn yr eisteddfod. Felly, dylid defnyddio gwersi a ddysgwyd o'r profiad hwn i lywio digwyddiadau yn y dyfodol, gydag arbenigedd ac arfer da yn cael eu rhannu â sefydliadau arweiniol.

Ar draws awdurdodau lleol, darparwyd sawl enghraifft o sut y mae awdurdodau lleol yn rhannu arferion da yn fewnol gan gynnwys:

- cylchlythyr 'Shwmae Bawb' yng Nghyngor Bro Morgannwg i rannu arferion da a gwybodaeth
- sianel Teams i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg rannu gwybodaeth a chael mynediad at gymorth yng Nghyngor Sir Fynwy
- Cynllun Siarter Shwmaeronment yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sy'n rhannu arferion ar draws gwahanol adrannau, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol.

Roedd adroddiad blynyddol 2023-24 yn cydnabod bod nifer o rwydweithiau staff Cymraeg wedi cael eu sefydlu a'u cryfhau ar draws awdurdodau lleol a sefydliadau ieuchyd.

Cefnogodd un o'r sefydliadau hyn, ICC, sefydliadau ieuchyd eraill i sefydlu rhwydweithiau staff tebyg i'w rwydwaith Ymlaen ^[troednodyn 4] yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Astudiaeth achos: hyrwyddo adnoddau Mwy na geiriau

Cafodd gwefan [Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru](#) ei diweddarau yn ystod y cyfnod adrodd hwn i gynnwys adnoddau Mwy na geiriau i helpu i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg mewn ieuchyd a gofal cymdeithasol ledled gogledd Cymru. Roedd yr adnoddau hyn yn cynnwys gwybodaeth am y Cynnig Rhagweithiol, gwybodaeth am gyrsiau Cymraeg ac asesiad ar-lein i staff ei ddefnyddio i asesu eu sgiliau Cymraeg. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys clipiau fideo a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Byrddau Iechyd a GCC, sy'n helpu i ddangos pwysigrwydd darparu gwasanaethau ieuchyd a gofal cymdeithasol i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau.

6.2. Datblygu cynnwys digidol dwyieithog

Dywedodd llawer o sefydliadau eu bod wedi dilyn yr egwyddorion a nodir yn y [Pecyn Cymorth Technoleg Dwyieithog](#) yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Parhaodd Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r pecyn cymorth ymhlith rhanddeiliaid ac roedd byrddau ieuchyd yn aml yn adrodd eu bod yn dilyn yr egwyddorion a nodir yn y pecyn cymorth wrth ddatblygu neu gaffael gwasanaethau digidol newydd. Adroddodd ICC hefyd fod y pecyn cymorth wedi'i rannu â'u tîm cyfathrebu ac ar gael ar y fewnwyd i staff ei ddefnyddio, ac yn IGDC, roedd y tîm cyfieithu yn cefnogi prosiectau ag elfen o ryngwynebau dwyieithog lle bynnag y bo modd. Mae adborth gan rai sefydliadau yn awgrymu bod lle i wella ymwybyddiaeth o'r pecyn cymorth ymhellach ymhlith timau caffael a thechnoleg.

Cyfeiriwyd at wefan [GIG 111 Cymru](#) fel enghraifft lle y cyflwynwyd cynorthwyydd rhithwir newydd i'r wefan hon i helpu defnyddwyr i gael mynediad at gyngor ieuchyd cywir ac amserol. Mae'r cynorthwyydd rhithwir yn cael ei bweru gan ddeallusrwydd artiffisial ac mae

⁴ Rhwydwaith Cymraeg i staff.

ar gael mewn sawl iaith. Mae'n sganio'r wefan am wybodaeth a chyngor yn seiliedig ar sylwadau gan y claf.

Adroddodd eraill, fel ICC, fod gwefan newydd yn cael ei datblygu a fydd yn bodloni Safonau'r Gymraeg yn llawn. Mae hon i fod i gael ei lansio ddechrau 2026. Bydd yn cynnwys cyfleuster newid iaith a fydd yn caniatáu i ddefnyddwyr newid yr iaith o'u dewis fel sy'n wir ar hyn o bryd gyda gwefannau eraill fel y rhai sy'n hyrwyddo [Cymru Iach ar Waith](#) a Phrosiect Cyffuriau Newydd ac Adnabod Sylweddau Newydd Cymru, [WEDINOS](#).

At hynny, adroddwyd bod [Ap GIG Cymru](#) yn parhau i gael ei ddatblygu'n ddwyieithog a bod siaradwyr Cymraeg yn rhan o'r broses ddylunio i ddefnyddwyr. Mae'r contractwr penodedig yn datblygu sgrinluniau ar gyfer pob tudalen o'r Ap, ac mae'r rhain yn cael eu cyfieithu gan wasanaethau cyfieithu a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. Yna caiff prototeipiau dwyieithog eu profi gan ddefnyddwyr sy'n siarad Cymraeg fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Ap. Mae gan yr Ap gyfleuster newid iaith mewnol sy'n caniatáu i ddefnyddwyr newid yn hawdd o un iaith i'r llall. Gall defnyddwyr hefyd roi adborth ar yr Ap yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

Ar draws y sector iechyd, dywedwyd bod staff Unedau Cymraeg byrddau iechyd wedi cael ceisiadau i roi cyngor ar ddatblygu gwasanaethau digidol newydd megis caffael system e-rota newydd y cymerodd staff o BIP Caerdydd a'r Fro ran ynddo. Ar lefel sefydliadau unigol, adroddwyd:

- bod Uned Gymraeg BIP Aneurin Bevan yn ymwneud â datblygu offer addas ar gyfer ymgynghoriadau rhithwir a chyfathrebu'n ddigidol â chleifion
- bod BIA Powys wedi datblygu rhyngwynebau digidol dwyieithog ar gyfer gwasanaethau fel y rhaglen [SilverCloud](#), sy'n cynnig cymorth iechyd meddwl ar-lein, a [Gwasanaeth Byw'n Dda Powys](#)
- bod BIP Bae Abertawe yn chwarae rhan weithgar yn y broses o ddatblygu porth cleifion dwyieithog ac Ap maeth a deieteg newydd i gleifion
- bod treial o hysbysebion naid Cymraeg rhwng BIP Cwm Taf Morgannwg ac ICC wedi cynyddu'r traffig i wefan Gymraeg ICC
- roedd pedwar dylunydd cynnwys a oedd yn gallu siarad Cymraeg wedi ymuno â thîm digidol ICC.

Adroddwyd bod heriau'n codi o ran datblygu gwasanaethau digidol wrth geisio caffael atebion parod, ond bod creu systemau pwrpasol dwyieithog o'r cychwyn cyntaf yn tueddu i fod yn symlach. Nodwyd hefyd, mewn rhai achosion, fel o fewn systemau e-frysbennu iechyd a ddefnyddir mewn gofal brys, y gall ymatebion testun rhydd yn y Gymraeg a ddarperir gan ddefnyddwyr gwasanaethau greu risg glinigol pan nad oes cyfieithiadau cywir ac amserol ar gael.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, roedd awdurdodau lleol yn aml yn adrodd eu bod yn datblygu gwasanaethau digidol dwyieithog newydd, gyda chyfieithwyr yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o greu cynnwys dwyieithog. Nodwyd yn aml hefyd fod awdurdodau

lleol yn gweithredu gwefannau dwyieithog ac yn cyhoeddi deunyddiau dwyieithog yn rheolaidd. Er enghraifft:

- adroddodd un awdurdod lleol, Cyngor Gwynedd, fod pob datblygiad digidol mewnol yn cael ei wneud yn ddwyieithog, a hynny'n ddieithriad
- adroddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot fod hwb hyfforddi digidol dwyieithog newydd, [Thingi](#), wedi'i lansio ym mis Rhagfyr 2024. Mae'r porth ar gael i staff yr awdurdod lleol yn ogystal ag asiantaethau gofal cymdeithasol sy'n cydweithio â'r awdurdod lleol o dan gytundeb trwydded gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Gall defnyddwyr newid iaith o'r Gymraeg i'r Saesneg ar y platfform ac mae'r holl adnoddau dysgu ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

6.3. Fforymau a grwpiau rhanbarthol

Mae fforymau rhanbarthol yn parhau i gyfarfod mewn rhai ardaloedd ond nid yw eraill wedi cyfarfod ers peth amser neu heb eu sefydlu. Parhaodd fforwm rhanbarthol staff ieuchyd ac awdurdodau lleol Gwent i gyfarfod yn rheolaidd yn ystod y cyfnod adrodd hwn a rhannu arferion da rhwng yr aelodau. Ar y llaw arall, adroddwyd nad oedd fforwm rhanbarthol gogledd Cymru, er gwaethaf cael ei ystyried yn ddull rhagorol ar gyfer rhannu arferion da, wedi cyfarfod ers peth amser.

Mae swyddogion y Gymraeg o awdurdodau lleol de-ddwyrain Cymru yn parhau i gyfarfod yn fisol i rannu arferion da ac roedd presenoldeb da yn y rhwydwaith hwn.

At hynny, dywedodd rhai awdurdodau lleol fod ganddynt eu grwpiau a'u fforymau lleol eu hunain, megis gweithgor Mwy na geiriau newydd Cyngor Bro Morgannwg a grŵp gweithredu'r Gymraeg Cyngor Dinas Casnewydd.

6.4. Cyfarfod cenedlaethol o arweinwyr gweithredol a swyddogion y Gymraeg

Parhaodd cyfarfodydd chwarterol y grŵp strategol ar gyfer swyddogion y Gymraeg o fyrddau ac ymddiriedolaethau ieuchyd i gael eu cynnal yn ystod y cyfnod adrodd hwn er mwyn rhannu arferion da, mentrau ac adnoddau. Roedd presenoldeb da yn y grŵp hwn ac fe'i hystyriwyd yn ased pwysig i rannu problemau a dod o hyd i atebion, ac mae wedi bod yn werthfawr i sefydliadau. Darparwyd rhai enghreifftiau lle roedd gwybodaeth am fentrau wedi cael ei rhannu yn y grŵp hwn ac yna eu mabwysiadu gan sefydliadau eraill. Roedd y rhain yn cynnwys yr Ap asesu swyddi gwag Gymraeg a ddatblygwyd gan BIA Powys a oedd yn cael ei ddefnyddio gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro o ganlyniad i'w rannu yn y grŵp hwn. Mae'r Fforwm Iechyd a sefydlwyd yn ddiweddar (y cydweithrediad rhwng Comisiynydd y Gymraeg, Llywodraeth Cymru a sefydliadau ieuchyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni Safon 110) hefyd yn hwyluso rhannu arferion da.

Ni chafwyd cyfle i ddod ag arweinwyr gweithredol a swyddogion y Gymraeg ynghyd yn ystod 2024-25 a mynegodd rhai sefydliadau eu hanfodlonrwydd ynghylch hyn. Fodd bynnag, roedd digwyddiad cenedlaethol i randdeiliaid yn cael ei gynllunio gan Lywodraeth

Cymru i'w gynnal yn ystod mis Hydref 2025 i ddod â rhanddeiliaid ledled Cymru ynghyd i rannu arferion da.

6.5. Dathlu Ilwyddiant

Cafwyd sawl enghraifft o fentrau i ddathlu Ilwyddiant yn ystod y cyfnod hwn. Ar draws y sector iechyd, gwahoddwyd ceisiadau am Wobr Gofal Teg GIG Cymru yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae'r wobr hon yn cydnabod gwasanaethau sydd wedi gwella mynediad at wasanaethau i bobl â nodweddion gwarchodedig neu nodweddion personol penodol, neu sy'n cydnabod y cynnig rhagweithiol a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn a chyrhaeddodd BIP Betsi Cadwaladr y rhestr fer.

Astudiaeth achos: Gwobr Gofal Teg GIG Cymru

Cyrhaeddodd BIP Betsi Cadwaladr y rhestr fer ar gyfer Gwobr Gofal Teg GIG Cymru am ei fodel hyfforddi arloesol a chynaliadwy i wella sgiliau Cymraeg y staff. Cafodd y gwasanaeth ei roi ar y rhestr fer oherwydd mai dyma'r bwrdd iechyd cyntaf i gyflogi tiwtor a swyddog cymorth mewnol amser llawn ar gyfer y Gymraeg. Gan weithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd gyrsiau hyblyg, penodol i'r gweithle, a oedd wedi'u teilwra i rolau staff. Rhoddwyd blaenoriaeth i staff therapi lleferydd ac iaith a disgwylir y bydd y cymorth yn cael ei ymestyn i wasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu nesaf.

Ar draws y sector gofal cymdeithasol, fel rhan o Wobrau Gofal Cymdeithasol Cymru 2024, cynhaliwyd y [Wobr Gofalu trwy'r Gymraeg](#) yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst 2024. Bellach yn ei thrydedd flwyddyn, mae'r wobr yn cydnabod, yn dathlu ac yn rhannu gwaith unigolion sydd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl drwy ddarparu gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n tynnu sylw at gyfraniadau'r rhai sy'n gweithio ar draws y meysydd gofal cymdeithasol, gofal plant, chwarae, a'r blynyddoedd cynnar yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol, a chydweithredol yng Nghymru. Cyrhaeddodd pump o weithwyr o'r sectorau hyn y rownd derfynol yn 2024.

Astudiaeth achos: Gwobr Gofalu trwy'r Gymraeg

Enillydd Gwobr Gofalu trwy'r Gymraeg 2024 oedd Elaine Fflur Morris, uwch weithiwr gofal yng Nghartref Bryn yr Eglwys yng Nghonwy. Cafodd ei chydnabod am wneud gwahaniaeth mawr drwy alluogi trigolion i fyw bywyd llawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Elaine yn gweithredu fel cyfieithydd, gan sicrhau bod preswylwyr a'u teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac mae'n arwain gweithgareddau dyddiol yn y Gymraeg sy'n lleihau unigrwydd a gorbryder. Mae hi hefyd yn hyrwyddo'r diwylliant Cymraeg drwy wasanaethau capel, ac mae ei dylanwad yn ymestyn i staff newydd, y mae llawer ohonynt wedi cael eu hysbrydoli i ddysgu Cymraeg.

Yn ogystal â'r gwobrau hyn ar gyfer y sector cyfan, dywedodd rhai sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol hefyd eu bod yn parhau i gynnal neu'n bwriadu cynnal eu cynlluniau gwobrwyo eu hunain ar gyfer eu staff eu hunain. Er enghraifft, mae gwobrau staff IGDC yn cynnwys gwobr dysgwr y flwyddyn. Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion ei fod yn bwriadu datblygu cynllun tebyg a fyddai'n dathlu llwyddiant staff oedd yn dysgu Cymraeg a/neu a oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a chyda defnyddwyr gwasanaethau.

Astudiaeth achos: Gwobrau Un Bae ar y Cyd

Mae gwobrau Un Bae ar y Cyd sy'n cwmpasu rhanbarth Bae Abertawe yn dyfarnu dwy wobr berthnasol. Yn ystod 2024, dyfarnwyd gwobr dysgwr y flwyddyn i Rachel Harford, fel Nyrs Arbenigol yn y tîm Niwro-Lidiol yn ysbyty Treforys. Rhannwyd gwobr y Gymraeg rhwng dau enillydd – gwasanaeth syndrom coluddyn llidus (IBS) yr adran ddeieteg a'r gwasanaeth iechyd meddwl ac anableddau dysgu.

Lansiwyd gwasanaeth IBS adran ddeieteg Bae Abertawe yn 2020 a'i nod oedd helpu cleifion sy'n siarad Cymraeg i reoli eu cyflwr yn y Gymraeg. Mae'r holl gymorth ac adnoddau, gan gynnwys cyngor ar y deiet FODMAP sy'n helpu gyda phroblemau treulio, ar gael yn y Gymraeg. Y gobaith yw, drwy ddarparu'r wybodaeth yn y Gymraeg, y bydd y gwasanaeth yn ei gwneud hi'n haws i gleifion ddeall a dilyn canllawiau. Mae adborth a gesglir drwy holiaduron Cymraeg yn helpu'r tîm i wella'r gwasanaeth, gan ddangos pa mor bwysig y gall iaith fod mewn gofal iechyd.

Cafodd Hannah Thomas glod am wneud gwasanaeth iechyd meddwl ac anableddau dysgu Bae Abertawe yn fwy cyfeillgar o ran y Gymraeg. Creodd gynllun i helpu staff i wella eu Cymraeg ac i wneud gwasanaethau'n haws i gleifion eu cael yn eu dewis iaith. Mae ei hymdrechion wedi ysbrydoli cydweithwyr ac wedi annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y gwasanaeth. Mae gan gleifion fwy o ddewis bellach o ran sut y maent yn derbyn gofal, ac mae staff yn teimlo'n hyderus yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg.

6.6. Datblygu asesiadau ac adnoddau diagnostig safonol ar gyfer y Gymraeg

Fel yr amlygir yn adran 4.2: elfen allweddol o'r cam gweithredu hwn yw datblygu set o asesiadau safonol sydd ar gael yn genedlaethol ar gyfer siaradwyr Cymraeg â dementia. Er mwyn cyflawni hyn, roedd ymchwil ar y gweill yn ystod y cyfnod adrodd hwn a chafodd adroddiad cam un [Dilysu profion asesu gwybyddol Cymraeg](#) ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2025. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o gam cyntaf yr ymchwil i ddilysu profion asesu gwybyddol sydd wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg. Canfu mai'r profion asesu gwybyddol a ddefnyddir amlaf mewn Gwasanaethau Asesu Cof ledled Cymru oedd Archwiliad Gwybyddol Addenbrooke (ACE)-III a Mini-ACE.⁵ Mae hefyd yn amlinellu cyfres o argymhellion ar gyfer cam nesaf yr ymchwil gan gynnwys blaenoriaethu dilysu profion

⁵ Prawf gwybyddol i sgrinio ar gyfer dementia a gwneud diagnosis ohono

seicometrig ACE-III a Mini-ACE yn y Gymraeg; cyfweiliadau ag ymarferwyr ac arsylwadau maes. Yna mae'n argymhell y dylid cynnal astudiaeth beilot o ACE-III a Mini-ACE ar gyfer casglu data clinigol mewn un bwrdd iechyd.

Ym mis Mawrth 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y [gwerthusiad terfynol o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia \(2018 i 2022\)](#). Daeth i'r casgliad y gwnaed cynnydd sylweddol i drawsnewid y dirwedd dementia ledled Cymru ond bod heriau gweithredu a monitro yn parhau. Tynnodd sylw at bwysigrwydd parhau i ddatblygu a chynyddu argaeledd opsiynau cymorth cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau y gall pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofaluwyr gael mynediad at wasanaethau yn eu dewis iaith.

6.7. Y defnydd o iaith Gwaith

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, parhaodd sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol i wneud defnydd helaeth o adnoddau a deunyddiau arddangos gweledol iaith Gwaith.

Ar draws y sector iechyd, dosbarthwyd llinynnau gwddf, bathodynau a lifrai wedi'u brodio wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer iaith Gwaith a Dysgu Gwaith i staff, gan alluogi cleifion a chydweithwyr i adnabod siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn hawdd. Sicrhodd sefydliadau iechyd fod yr adnoddau hyn yn hawdd i gael gafael arnynt drwy ganiatáu i staff wneud cais amdanynt drwy dudalen SharePoint Tîm y Gymraeg neu eu casglu o swyddfeydd dynodedig. Mewn un enghraifft, dosbarthodd BIP Cwm Taf Morgannwg dros 200 o llinynnau gwddf a bathodynau yn ystod y flwyddyn, gyda chynlluniau i ehangu argaeledd i ystod ehangach o broffesiynau yn y dyfodol.

Cafodd y deunyddiau hyn, ochr yn ochr â phosteri Cynnig Rhagweithiol fel 'Defnyddia dy Gymraeg yma' a dynodwyr digidol, gan gynnwys llofnodion e-bost dwyieithog, logos a chefnidiroedd Teams, eu hyrwyddo'n eang ar draws sefydliadau iechyd. Er enghraifft, datblygodd AaGIC gefnidiroedd Teams i ddangos a oedd staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu'n ddysgwyr, ac fe wnaeth ymgyrch 'Rhowch Gynnig Arni' BIP Hywel Dda annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg drwy ddeunyddiau brand yn cynnwys ymadroddion defnyddiol ar bosteri, pennau ysgrifennu, cardiau fflach a chymhorthion desg.

Cefnogwyd cydymffurfiaeth â defnyddio iaith Gwaith drwy archwiliadau, ymweliadau siopwr cudd, a gwaith monitro mewnol. Er enghraifft, cynhaliodd BIP Aneurin Bevan a BIP Cwm Taf Morgannwg archwiliadau mewnol i gadarnhau eu defnydd, tra bod BIP Betsi Cadwaladr wedi cynnal adolygiad cwsmer cudd.

Dywedodd rhai byrddau iechyd hefyd eu bod wedi datblygu nodweddion digidol newydd, megis dangosyddion iaith Gymraeg ar fyrddau gwyn electronig ac o fewn systemau trosglwyddo cleifion. Nododd BIP Cwm Taf Morgannwg fod y nodweddion hyn yn helpu i sicrhau bod cleifion sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hadnabod a'u cefnogi, ond bod angen gwaith pellach i gynyddu'r defnydd cyson ohonynt, gan fod nifer y cleifion a nodwyd ar y system yn parhau i fod yn is na'r rhai y cofnodwyd eu bod yn siaradwyr Cymraeg ar Gofnod Gofal Nyrsio Cymru (WNCR).

Ar draws y sector awdurdodau lleol, dywedodd sefydliadau fod staff yn defnyddio llinynnau gwddf a bathodynau iaith Gwaith yn rheolaidd ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg.

Nododd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol hefyd fod staff yn aml yn defnyddio llofnodion e-bost dwyieithog a chefnidiroedd Teams i nodi eu gallu yn y Gymraeg. Yng Nghyngor Sir Fynwy, datblygwyd cefndir Teams Mwy na geiriau penodol ar gyfer staff gofal cymdeithasol, ac yng ngogledd Cymru, roedd adnoddau fel magnetau, matiau diod, a thaflenni desg a gynhyrchwyd gan Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru, yn cael eu defnyddio'n rheolaidd i hyrwyddo defnydd bob dydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

6.8. Safoni terminoleg Gymraeg

Lansiwyd prosiect peilot yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys sefydliadau iechyd cenedlaethol i brofi ymarferoldeb a manteision mabwysiadu system cof cyfieithu gyffredin. Gan adeiladu ar ganfyddiadau astudiaeth ddichonoldeb flaenorol, arweiniwyd y prosiect gan PCGC wnaeth gaffael system cof cyfieithu. Roedd y cynllun peilot ar gael i sefydliadau iechyd a oedd eisoes â chytundeb lefel gwasanaeth cyfieithu gyda PCGC. Roeddent yn cynnwys Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, ICC a IGDC. Mae'r system wedi cefnogi mwy o gysondeb a phroses safoni terminoleg Gymraeg ar draws y sector ac yn helpu i leihau costau ar draws y sefydliadau sy'n cymryd rhan.

Mae diddordeb mawr mewn ymestyn y cynllun peilot system cof cyfieithu gyffredin i sefydliadau iechyd eraill yn y dyfodol ond nodwyd y byddai rheoli prosiect mwy yn golygu llwyth gwaith ychwanegol i'r sefydliad sy'n arwain y prosiect. Dadleuwyd y gallai fod achos dros ddyrannu adnoddau ychwanegol i gam nesaf y prosiect hwn, er mwyn caniatáu iddo gael ei ymestyn ymhellach ar draws y sector iechyd.

Adroddwyd hefyd am welliannau eraill i brosesau cyfieithu gan sefydliadau iechyd cenedlaethol. Er enghraifft, gweithiodd ICC gyda'r Hwb Ymchwil ac Arloesi i wella'r broses gyfieithu i'r Gymraeg a chynhaliodd weithdy staff yn nhymor yr hydref 2024. O ganlyniad, cyflwynodd ICC sawl newid, gan gynnwys penodi cydlynnydd cyfieithu Cymraeg, cryfhau ei gytundeb â PCGC, contractio darparwyr cyfieithu allanol ychwanegol, a lansio porth ceisiadau cyfieithu mewnol. Adroddodd AaGIC fod y rhan fwyaf o'i waith cyfieithu yn cael ei wneud yn fewnol, gyda ffocws ar safoni terminoleg. Ers mis Mawrth 2024, mae AaGIC hefyd wedi darparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mabwysiadodd BIP Cwm Taf Morgannwg a BIA Powys system rheoli cyfieithu o'r enw Phrase, sy'n integreiddio cof cyfieithu, cyfieithu peiranyddol, a rheoli terminoleg. Cafwyd manteision sylweddol yn sgil cyflwyno'r system hon, gan gynnwys arbedion o bron i £6,000 mewn costau cyfieithu allanol i BIP Cwm Taf Morgannwg yn ystod 2024/25, yn ogystal â chynnydd mewn cynhyrchiant ar draws timau cyfieithu mewnol.

Adroddodd sawl awdurdod lleol hefyd ei fod wedi cryfhau ei gymorth cyfieithu ac wedi gwella cysondeb terminoleg y Gymraeg ar draws gwasanaethau. Ymysg yr enghreifftiau roedd:

- Cyngor Sir Caerfyrddin, a ddatblygodd gardiau fflach terminoleg mewn partneriaeth â chanolfan Peniarth i'r holl staff gofal cymdeithasol eu defnyddio. Cafodd y rhain eu cynllunio fel cardiau y gellir eu cysylltu i fag gwaith neu lifrai.
- Cyngor Sir Ceredigion, a gynhyrchodd adnodd ymadroddion wedi'u cyfieithu sy'n aml yn cael eu defnyddio mewn hysbysebion swyddi.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, a ddatblygodd eirfa o dermau ar gyfer staff gwasanaethau oedolion
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, a greodd gyfres o adnoddau i gefnogi staff gyda gweithgareddau cyfieithu
- Cyngor Bro Morgannwg, a lansiodd yr adnodd Cyfieithu Cyflym (ym mis Ebrill 2025), sef teclyn cyfieithu digidol sy'n defnyddio staff sy'n rhugl yn y Gymraeg i brawfddarlennu cyfieithiadau.

Mynegodd sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol ddiddordeb mewn datblygu corpws terminoleg Gymraeg o safon uchel ar gyfer y sector. Awgrymwyd y gallai Llywodraeth Cymru arwain y gwaith hwn mewn cydweithrediad â chynrychiolwyr y sector, gyda'r nod o integreiddio'r adnodd geiriadur sy'n deillio o hyn i 'Byd Term Cymru', porth terminoleg Llywodraeth Cymru. Byddai bwrw ymlaen â'r fenter hon yn gofyn am ddyrannu cyllid ac adnoddau priodol. Yn absenoldeb cynnydd a chydlynw ar lefel genedlaethol, dechreuodd fforymau rhanbarthol fel Fforwm Mwy na geiriau Gogledd Cymru i ymchwilio i'r maes gwaith hwn yn ystod y cyfnod adrodd.

6.9. Archwilio'r Cynnig Rhagweithiol

Cyfrifoldeb cyrff rheoleiddio ac arolygu yw'r cam gweithredu hwn.

Comisiynydd y Gymraeg yw'r rheoleiddiwr sy'n gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ar draws sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Un o'r cysyniadau canolog o fewn y Safonau hyn yw'r Cynnig Rhagweithiol, sef darparu gwasanaethau'n rhagweithiol yn y Gymraeg heb fod angen i unigolion orfod gofyn amdanynt. Mae hyn yn cynnwys gofyniad statudol i gofnodi dewis iaith unigolyn ar y pwynt cyswllt cyntaf ac i weithredu ar y dewis hwnnw o hynny ymlaen.

Adroddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) fod y Cynnig Rhagweithiol wedi'i ymwreiddio yn ei methodoleg arolygu a bod canfyddiadau'n cael eu hamlygu mewn adroddiadau arolygu. Yn ystod y cyfnod adrodd, nododd AGIC sawl canfyddiad yn ymwneud â sut yr oedd y Cynnig Rhagweithiol yn cael ei ddatblygu ar draws gwasanaethau gofal iechyd.

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi mireinio'r ffordd y mae'n asesu ac yn adrodd ar y cynnydd a wneir gyda'r Cynnig Rhagweithiol. Mae'r disgrifiadau y mae arolygwyr yn eu defnyddio yn eu hadroddiadau wedi'u diweddarw i hyrwyddo dull teg a chymesur, gan gydnabod ymdrechion darparwyr i gefnogi'r iaith a'r diwylliant Gymraeg. Bydd y newidiadau hyn, ynghyd â sesiynau hyfforddi a gwybodaeth ychwanegol i arolygwyr, ar waith erbyn mis

Rhagfyr 2025. Mae pob arolygiad bellach yn ystyried pa mor dda y mae darparwyr yn gwneud cynnydd gyda'r Cynnig Rhagweithiol, ond nid yw AGC yn casglu data ar gydymffurfio ar hyn o bryd. Yn hytrach na dibynnu ar hunanasesiadau darparwyr, y canfuwyd eu bod yn annibynadwy, mae arolygwyr bellach yn cofnodi cynnydd yn uniongyrchol yn system AGC. Dros amser, bydd hyn yn caniatáu i AGC gynhyrchu data meintiol ar weithredu. Lle bo angen, mae AGC yn cyhoeddi hysbysiadau gweithredu neu wella o dan reoliadau presennol, er nad yw'r rhain yn ymwneud yn benodol â'r Gymraeg, sy'n golygu bod dadansoddiad manwl yn dal i olygu bod angen adolygu adroddiadau arolygu unigol.

7. Thema 4: Monitro Mwy na geiriau yn barhaus

Mae thema olaf Mwy na geiriau yn ymwneud â monitro'r cynllun yn barhaus. Cyflwynwyd cyfres o gamau gweithredu i gryfhau monitro ac atebolrwydd ar gyfer Mwy na geiriau, gan gynnwys gwella prosesau casglu data a dangosyddion, datblygu dangosfwrdd perfformiad cenedlaethol, penodi pobl gyfrifol i fod yn atebol am gyflawni, a sefydlu bwrdd cynghori i oruchwyllo cynnydd.

Wrth baratoi ar gyfer cyfnod adrodd 2024-25, nod Llywodraeth Cymru oedd cynhyrchu'r adroddiad blynyddol hwn yn gynt ar ddiwedd y cyfnod. Lluniwyd amserlen adrodd glir, gan ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gyflwyno eu ffurflenni blynyddol erbyn diwedd mis Awst 2025. Datblygwyd templed adrodd diwygiedig i gasglu data meintiol mwy cyson ac i ganiatáu i sefydliadau amlygu enghreifftiau o arfer da yn erbyn pob cam gweithredu. Roedd templed 2024-25 hefyd yn annog sefydliadau i ganolbwyntio ar gamau gweithredu tymor canolig a hirdymor a oedd heb eu cwblhau, gan ddileu'r gofyniad i adrodd ar gamau gweithredu a oedd eisoes wedi'u cwblhau.

Yn ystod 2024-25, fel yr amlygwyd yn adran 4.1, dechreuwyd gwaith cychwynnol i gryfhau trefniadau monitro cynllun gweithredu Mwy na geiriau, gan gynnwys adolygiad o ddangosyddion ategol ac adolygiad o'r dirwedd data a gomisiynwyd i nodi bylchau mewn data. Ar y lefel genedlaethol, ni wnaed cynnydd ar ddatblygu dangosfwrdd perfformiad, er bod hyn bellach yn rhan o'r gwaith sydd wedi'i gomisiynu'n allanol gan Lywodraeth Cymru.

Roedd pob corff iechyd a ddarparodd adroddiad blynyddol ar gyfer 2024-25 wedi penodi unigolyn i fod yn gyfrifol am gyflawni'r strategaeth Mwy na geiriau o fewn eu sefydliadau, tra bod gan oddeutu hanner yr awdurdodau lleol arweinydd penodol yn ei le. Adroddodd awdurdodau lleol eraill fod y cyfrifoldeb hwn yn nwylo grŵp o staff ac yn yr achosion sy'n weddill, ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth.

Parhaodd y bwrdd cynghori, a sefydlwyd yn 2023, i graffu ar gynnydd yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gan gynnwys monitro statws yr holl gamau gweithredu ac adolygu unrhyw rwystrau i'w cyflawni. Roedd digwyddiad rhanddeiliaid cenedlaethol hefyd wedi'i drefnu ar gyfer Hydref 2025.

Parhaodd y bwrdd i gynnal deialog â sefydliadau ar draws y sector iechyd a gofal, gan gynnwys y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth, GCC, IGDC, AaGIC, Llais a'r Gymdeithas Strôc. Mynychwyd un o'r cyfarfodydd hefyd gan gynrychiolwyr o'r sector iechyd yng Ngwlad y Basg, gyda'r nod o rannu arferion da a dysgu o wlad amlieithog arall.

Dan arweiniad y bwrdd ac mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, datblygwyd cynigion ar gyfer cwrs Cymraeg wedi'i deilwra ar gyfer gweithwyr tramor, ynghyd â deunyddiau ac adnoddau ategol i hwyluso'r gwaith o'i hyrwyddo a'i weithredu.

Yn ogystal â hynny, cynhaliwyd digwyddiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol (Awst 2024) yn Rhondda Cynon Taf mewn partneriaeth â Llais, a roddodd gyfle i glywed yn uniongyrchol am brofiadau defnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gallu siarad

Cymraeg. Cydweithiodd y bwrdd â Llais i ddatblygu holiadur byr i gasglu profiadau pobl o'r cynnig rhagweithiol/darpariaeth Gymraeg ar draws gwasanaethau iechyd a gofal, a rannwyd gyda mynychwyr yr eisteddfod.

Mae cadeirydd y bwrdd hefyd yn cyfarfod yn flynyddol ag Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol i drafod cynnydd y cynllun ac i godi unrhyw bryderon.